

CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU
GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES

CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR PLANT A PHOBL IFANC

FIL ADDYSG (CYMRU)

RHAGAIR

Siarter ar gyfer Cyngorau Addysgu

Mae'r Siarter hon wedi cael ei llunio gan y Cyngorau cysylltiol¹ sy'n aelodau o'r *Fforwm Rhyngwladol ar gyfer Awdurdodau Rheoleiddio Athrawon*. Ei diben yw casglu ynghyd fuddion, dibenion a swyddogaethau nodweddiadol cyngorau addysgu fel y gall gwneuthurwyr polisi a'r rheiny sydd â diddordeb mewn hybu proffesiynoldeb athrawon a chryfhau atebolrwydd athrawon yn rhyngwladol fanteisio ar brofiad cyngorau sy'n bodoli eisoes i hybu arferion gorau'n fyd-eang ac i gynorthwyo â'r gwaith o sefydlu Cyngorau newydd.

Diben:

Fel arfer mae gan Gyngorau Addysgu dri diben perthynol:

- gwella safonau addysgu a dysgu yn eu hawdurdodaethau,
- codi statws y proffesiwn addysgu, a
- sicrhau'r cyhoedd ynghylch ymddygiad a chymhwysedd athrawon

Buddion:

- Safonau uwch o ran ymddygiad a chymhwysedd athrawon
- Gwell canlyniadau dysgu i blant a phobl ifanc
- Mwy o ymddiriedaeth a hyder gan y cyhoedd yn y proffesiwn addysgu
- Gwell hunan-barch gan athrawon trwy gael eu cysylltu â chorff rheoleiddio proffesiynol
- Atebolrwydd clir ar gyfer safonau ac ymddygiad proffesiynol

Swyddogaethau:

Mae'r swyddogaethau a gyflawnir gan gyngorau addysgu'n cynnwys:

- Cadw cofrestr o'r rheiny sy'n gymwys ac yn addas i ymarfer
- Cynghori ar safonau / cymwyseddau proffesiynol i fynd yn athro / athrawes, neu sefydlu'r safonau / cymwyseddau hynny
- Sicrhau bod athrawon cofrestredig yn bodloni'r safonau disgwylidig
- Gosod safonau ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon, cynghori ar y rhaglenni hynny a'u monitro
- Gosod safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon, cynghori arno, ei fonitro neu wneud darpariaeth ar ei gyfer
- Comisiynu, hwyluso neu gyflawni ymchwil i arferion effeithiol

Fel arfer cyflawnir y swyddogaethau hyn trwy:

- Gyhoeddi cod moeseg / ymddygiad / ymarfer
- Ymchwilio i addasrwydd athrawon unigol i ymarfer, gan gynnwys eu hymddygiad a/neu gymhwysedd proffesiynol, a dyfarnu arno
- Manteisio ar ymchwil a thystiolaeth er mwyn cynghori gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaethau ar bolisiau effeithiol i wella safonau addysgu a dysgu
- Asesu addasrwydd y rheiny sy'n dymuno hyfforddi i fod yn athrawon
- Cadw cofrestr a all gynnwys gwahanol gategoriâu cofrestru, yn ôl cymwysterau ymarferwyr
- Achredu cyrsiau addysg gychwynnol athrawon

¹ Defnyddir 'Cyngorau Addysgu' yn gyson yn y Siarter hon i ddisgrifio swyddogaethau a dibenion cyrff a all fod â theitlau eraill, megis Bwrdd Cofrestru Athrawon neu Goleg Athrawon.

Egwyddorion sefydlol sy'n hynodi Cynghorau Addysgu:

- Mae Cynghorau Addysgu'n gweithio uwchlaw popeth er lles pawb ac er budd y cyhoedd
- Mae gan Gynghorau Addysgu sail statudol a chyfreithiol sefydledig
- Mae Cynghorau Addysgu'n annibynnol ar gyfarwyddyd llywodraethau
- Mae Cynghorau Addysgu'n hybu'r proffesiwn addysgu yn hytrach na buddion athrawon unigol
- Mae Cynghorau Addysgu'n hybu rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol

Mae'r Cynghorau Addysgu mwyaf effeithiol:

- **Yn ennyn parch y cyhoedd a'r proffesiwn**
- **Yn asiantaeth ganolog unigryw i lywodraethau o ran ansawdd addysgu**
- **Yn gwella proffesiynoldeb athrawon trwy godi safonau ymarfer, a gwella addysg gychwynnol a pharhaus**
- **Yn cadw cofrestr gywir o statws athrawon o ran eu cymwysterau a'u haddasrwydd i ymarfer, ac yn sicrhau bod y gofrestr ar gael i'r cyhoedd**

Crynodeb gweithredol

CyngACC yw'r corff sy'n cael ei ail-gyflunio ac ef fydd y corff rheoleiddio proffesiynol i grŵp ehangach o ymarferwyr addysg. O'r herwydd mae mewn lle da i gynnig cyngor ar y Bil hwn.

Y prif bwyntiau yn ein cyflwyniad yw:

1. Mae CyngACC yn croesawu ymestyn rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol i athrawon Addysg Bellach ac i staff cymorth addysgu mewn ysgolion ac Addysg Bellach.
2. Dylai fod yn ofynnol i athrawon a staff cymorth mewn ysgolion annibynnol gofrestru.
3. Dylai'r Bil alluogi'r Cyngor i roi cyngor ohono ei hun, i benderfynu pwy y bydd yn ei gynghori ac i gyhoeddi ei gyngor heb gydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion.
4. Y Cyngor, nid y Gweinidog, ddylai ddatblygu'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol cyntaf a'r rhai wedi hynny.
5. Dylid sefydlu proses annibynnol i benodi aelodau'r Cyngor yn hytrach na bod yr aelodau'n cael eu penodi gan Weinidogion.
6. Dylai'r Bil nodi'n eglur gyfrifoldebau'r Cyngor am safonau proffesiynol, achredu cyrsiau hyfforddiant cychwynol a sicrhau ansawdd datblygiad proffesiynol parhaus;
7. Mae'r gair 'addysgu' neu 'proffesiynau' wedi'i hepgor o deitl y sefydliad. Nid yw teitl y sefydliad 'Cyngor y Gweithlu Addysg' yn cyfleu proffesiynoldeb athrawon presennol na'r grŵp ehangach o ymarferwyr addysg yn y dyfodol. Byddai teitl tebyg i '*Cyngor y Proffesiynau Addysgu ac Addysg i Gymru*' yn fwy priodol.
8. Dylid ailddiffinio'r sail ar gyfer gwaith achos safonau proffesiynol fel 'addasrwydd i ymarfer', yn hytrach na 'chamymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwystra proffesiynol difrifol neu drosedd berthnasol'.
9. Dylid caniatáu i'r Cyngor osod ei ffi gofrestru heb gymeradwyaeth Gweinidogion.
10. Ni ddylai'r Gweinidog ymwneud â chymeradwyo'r cynllun tâl i gyflogeion y Cyngor. Y Cyngor, nid y Gweinidog, ddylai fod yn gyfrifol am benodi ei Brif Swyddog. Mae'r rhain yn faterion mewnol i sefydliad annibynnol, hunangyllidol.
11. Dylai ymgyrch cyfathrebu ynghylch y corff wedi'i ail-gyflunio, ymgyrch sy'n canolbwyntio ar grwpiau cofrestreion newydd, ddechrau ymhell cyn i'r corff hwnnw ddod i fodolaeth.

Mae'r cyflwyniad hwn yn ymdrin â rhagor o bwyntiau gan gynnwys manylion technegol.

Cefndir a rôl CyngACC yng nghyd-destun rheoleiddio proffesiynol

1. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o ymarfer ac ymddygiad proffesiynol er lles athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.

Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac mae'n ceisio darparu cyngor cynhwysfawr i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ynghylch materion addysgu.

2. Daeth y Cyngor i fodolaeth ar 1 Medi 2000 ar ôl i'r llywodraeth yn San Steffan basio'r Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch yn 1998. Roedd hyn yn dilyn ymgyrch dros fwy na degawd gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys ymgyrchu egniïol gan yr undebau athrawon.
3. Am y tro cyntaf rhoddodd y Ddeddf gyfrifoldebau penodol i'r proffesiwn addysgu ym meysydd rheoleiddio proffesiynol a chynghor trwy sefydlu Cynghorau Addysgu Cyffredinol ar wahân i Gymru a Lloegr. Hefyd caniatodd y Ddeddf i CyngACC, ar gais Gweinidogion, gyflawni gweithgareddau ym meysydd datblygiad proffesiynol parhaus a recriwtio i'r proffesiwn. Ar hyn o bryd mae rhyw 38,000 o athrawon wedi'u cofrestru gyda CyngACC. Mireiniwyd cyfrifoldebau'r Cyngor trwy Ddeddf Addysg 2002.

Datblygiadau ym maes rheoleiddio proffesiynol yn y Deyrnas Unedig

4. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae anallu rhai proffesiynau yn y sector iechyd i blismona eu hunain wedi arwain at eu diwygio ac at feirniadaeth fwy sylfaenol o hunanreoleiddio. Achosodd achos Shipman, er enghraifft, feirniadaeth sylweddol o'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac arweiniodd at ei ddiwygio yn dilyn adroddiad y Fonesig Janet Smith. Yn dilyn hyn, bu symudiad cyffredinol i ffwrdd o 'hunanreoleiddio' a bellach mae gan y rhan fwyaf o'r rheoleiddwyr iechyd fwyafrif o bobl leyg yn cynrychioli lles cleifion ar eu Byrddau. Credir bod hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y rheoleiddiwr proffesiynol yn gweithredu er lles y cyhoedd yn hytrach na gwarchod y proffesiwn.
5. Cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y corff sy'n goruchwyllo cyrff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, bapur o'r enw '*Fit and proper? Governance in the public interest*' (2013) sy'n crynhoi rhai o egwyddorion cyffredinol llywodraethu cyrff cyhoeddus. Atgynhychir Pennod 6 o'r ddogfen honno yn Atodiad A a gellid barnu ei bod yn berthnasol i drafodaethau'r Pwyllgor.
6. Mae CyngACC wedi osgoi'r feirniadaeth gafodd rheoleiddwyr proffesiynol yn y sector iechyd oherwydd y ffordd drylwyr a theg y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau rheoleiddio ac oherwydd bod y ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor *weithredu er lles y cyhoedd* wrth ddilyn ei amcanion. Mae hon yn egwyddor sylfaenol mewn rheoleiddio effeithiol dan arweinyddiaeth broffesiynol.

Datblygiadau mewn rheoleiddio proffesiynol ar addysgu

7. Yn y Deyrnas Unedig, mae Cynghorau Addysgu ar wahân yn bodoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr wedi cael ei ddiddymu). Yn ddiweddar mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban wedi dod yn annibynnol ar y llywodraeth yno ac, mewn ymgyngoriad diweddar, mae'r llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon hefyd wedi dangos ei bod yn bwriadu i Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon fod yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth. Mae yna Gyngor Addysgu yn Iwerddon hefyd.
8. Yn Ewrop, mae yna ddiddordeb gan yr Undeb Ewropeaidd mewn ymchwilio i'r potensial i ddatblygu proffesiynoldeb athrawon trwy ymestyn rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol y tu hwnt i'r Cynghorau sy'n bodoli eisoes yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon a Malta. Mae diddordeb mewn sefydlu Cynghorau Addysgu wedi cael ei fynegi ym

Mhortiugal, yr Iseldiroedd a Denmarc.

9. Yn fyd-eang, mae Cynghorau Addysgu at ei gilydd yn nodwedd o wledydd y Gymanwlad, ac mae Cynghorau'n bodoli ym mhob un o daleithiau Awstralia ac yn Seland Newydd, Ontario, De Affrica a Nigeria. Mae'r Commonwealth Institute wedi cytuno y byddai ymestyn rheoleiddio proffesiynol yn symudiad buddiol. Y nod yn y pen draw fyddai cyd-gydnabod cofrestrriad a chymwysterau athrawon ac mae wedi annog aelod-wladwriaethau i weithio tuag at sefydlu Cynghorau Addysgu fel cam cyntaf. Mae'r rhain ar wahanol gamau o ran eu datblygiad mewn rhai gwladwriaethau yn Affrica, y Caribî a'r Dwyrain Pell.
10. Mae'r Fforwm Rhyngwladol ar gyfer Awdurdodau Rheoleiddio Athrawon - sy'n cynnwys yr holl Gynghorau Addysgu dan arweinyddiaeth broffesiynol ar draws y byd - wedi cyhoeddi '*Siarter Cynghorau Addysgu*' (gweler y Rhagair). Mae'r Siarter yn casglu ynghyd fuddion, dibenion a swyddogaethau nodweddiadol cynghorau addysgu fel y gall gwneuthurwyr polisi fanteisio ar brofiad cynghorau sy'n bodoli eisoes i hybu arferion gorau'n fyd-eang ac i gynorthwyo â'r gwaith o sefydlu Cynghorau newydd. **Mae CyngACC yn credu mai'r Siarter hon yw'r meincnod i fesur cynigion y Bil ar gyfer y Cyngor wedi'i ail-gyflunio.**

Cyflwyniad

11. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n croesawu Bil Addysg (Cymru). Mae'r Cyngor wedi dadlau dros ymestyn rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol i ymarferwyr a sectorau addysg eraill. Yn 2009, dadleuodd y Cyngor dros reoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol ym maes Addysg Bellach o safbwynt sicrhau cysondeb a chydlyniaeth i bobl ifanc 14-19 oed (gweler Atodiad B). Wrth ymateb i ehangu staff ysgolion, cyhoeddodd y Cyngor bapur safbwynt (2010) ar y ddadl dros ymestyn rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol i bersonau sy'n gweithio i gefnogi athrawon ac sydd â chysylltiad uniongyrchol â disgyblion (gweler Atodiad C). Felly mae'r Cyngor yn falch iawn i weld bod y Bil yn cynnig ymestyn rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol i gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion ac athrawon a staff cymorth Addysg Bellach. Fodd bynnag, mae peidio â chynnwys athrawon a chynorthwywyr addysgu sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol yn hepgoriad pwysig o'r Bil.
12. Mae hefyd rai meysydd lle nad yw'r Bil yn cyflawni'r potensial sydd ganddo i ymestyn proffesiynoldeb athrawon ac ymarferwyr addysg ymhellach. Yn fwyaf nodedig, nid yw'r Bil yn rhoi i'r Cyngor wedi'i ail-gyflunio berchnogaeth ar safonau proffesiynol, cyfrifoldeb am gymeradwyo priodoldeb proffesiynol cyrsiau hyfforddiant cychwynnol na sicrhau ansawdd datblygiad proffesiynol parhaus.
13. Yn wahanol i ddwy ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru a ddaeth cyn y Bil, oedd yn defnyddio ieithwedd rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol, yn ymarferol mae'r Bil yn cyfyngu ar botensial y corff proffesiynol wedi'i ailgyflunio. Er enghraifft, mae ei gwneud yn ofynnol i'r corff gael cydsyniad Gweinidogion cyn y gall gynnig cyngor a phennu y bydd Cod Ymddygiad ac Ymarfer y proffesiwn (a gafodd ei amgyffred, ei ddyfeisio a'i hybu gan CyngACC o'r blaen) yn cael ei greu gan y Gweinidog yn y lle cyntaf, yn gwanhau proffesiynoldeb ac yn llyffetheirio annibyniaeth y Cyngor wedi'i ailgyflunio.
14. Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn a phwyntiau eraill yn Adran 1 o'r cyflwyniad hwn. Os gellir mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn, mae'r Cyngor yn credu bod gan y Bil y potensial i ddod yn ddeddfwriaeth dda.

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL A'R ANGEN AM DDEDDFWRIAETH

(a) Hepgor cyfeiriad at 'weithredu er lles y cyhoedd'

Mae'r Cyngor yn nodi gwahaniaeth sylfaenol rhwng nodau'r corff newydd ym mharagraff 3 o'r Bil a nodau presennol CyngACC, sef bod y geiriau "er lles y cyhoedd" wedi cael eu hepgor. Mae'r Cyngor yn barnu bod hwn yn hepgoriad pwysig gan mai un o egwyddorion sylfaenol allweddol cofrestru a rheoleiddio proffesiynol yw bod cyrff yn cyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol i ddiogelu'r cyhoedd yn benodol a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn proffesiwn penodol. Mae hwn yn gyfrifoldeb unigryw ac arwyddocaol.

Yn wir mae nifer o reoleiddwyr, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi bod yn destun craffu a beirniadaeth cenedlaethol amlwg yn y gorffennol am beidio â diogelu'r cyhoedd. Er enghraifft:

- dywedodd ymchwiliad y llywodraeth i Harold Shipman a ddaeth i ben yn 2005 ac a gadeiriwyd gan y Fonesig Janet Smith, yn ei gasgliadau *"It is clear that its (the GMC) approach laid greater emphasis on the interests of the doctor than on ensuring the safety of patients"*;
- dywedodd yr adroddiad Arbennig i Weinidog Gwladol Gwasanaethau Iechyd ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn 2008 *"there are serious weaknesses in the NMC's governance and culture, in the conduct of its Council, in its ability to protect the interests of the public through the operation of fitness to practise processes and in its ability to retain the confidence of key stakeholders"*.

Bydd yn eithriadol o bwysig i gofrestreion newydd a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli ddeall mai rôl y corff newydd yw diogelu'r cyhoedd a bod yn glir bod cylch gwaith y sefydliad yn wahanol i gylch gwaith cyrff eraill megis undebau llafur a chymdeithasau, awdurdodau lleol a chyflogwyr. Roedd dryswch gan athrawon a sefydliadau cynrychioladol ynghylch prif swyddogaeth a rôl CyngACC yn nodwedd a gododd yn gynnar ac yn aml ac yn un a bwysai ar Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr cyn iddo ddod i ben.

Mae'r Cyngor yn gofyn am i'r ymadrodd "er lles y cyhoedd" gael ei ychwanegu yn dilyn dau nod y Cyngor yn Adran 3.

(b) Diffinio cofrestreion newydd

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen deddfwriaeth newydd i ymestyn cofrestru a rheoleiddio i grŵp ehangach o ymarferwyr addysg ac yn nodi bod y Bil yn diffinio'r grwpiau sydd i gael eu cofrestru mewn ffordd fras, sef

- athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- athrawon addysg bellach a gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach.

Wrth ddatblygu deddfwriaeth eilaidd a diffinio categorïau cofrestru, mae'r Cyngor yn annog Llywodraeth Cymru i beidio â phennu "swyddi" penodol a ddylai fod yn destun cofrestru mewn Rheoliadau. Mae'r Cyngor wedi canfod bod deddfwriaeth Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwyaf effeithiol pan mae wedi "galluogi" yn hytrach na bod yn or-benodol, er enghraifft, trwy Reoliadau, galluogwyd CyngACC i ddiffinio'r meini prawf ar gyfer pennu 'addasrwydd i gofrestru' yn 2006. Mae hyn wedi caniatáu i'r Cyngor ymateb yn gyflym i faterion wrth iddynt godi. Felly mae'r Cyngor yn argymhell y rhoddir hyblygrwydd i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio i ddiffinio'r categorïau cofrestru a darparu arweiniad ynghylch pa rolau y bydd angen eu cofrestru yn y dyfodol.

(c) Swyddogaethau tebyg ond mwy o reolaethau gan y llywodraeth

Mae swyddogaethau'r Cyngor wedi'i ailgyflunio o ran rheoleiddio, cynghori a gweithredu'n debyg iawn i swyddogaethau CyngACC, ond mae nifer o gymalau yn y Bil sy'n cynyddu rheolaeth y llywodraeth dros y ffordd mae'n gweithredu. Bydd y corff wedi'i ailgyflunio'n aros yn gorff hunanreoleiddiol, proffesiynol, annibynnol a ariennir gan ffioedd cofrestru ymarferwyr, yn debyg i statws CyngACC. Er hynny, mae mwy o reolaethau gan y llywodraeth yn nodweddion Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- mae Adran 7 o'r Bil yn mynnu y caiff y corff newydd ddarparu cyngor ar faterion perthnasol neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag addysgu neu ddysgu. Fodd bynnag, dim ond â chydysniad ymlaen llaw gan Weinidogion y bydd y corff newydd yn gallu darparu'r fath gyngor. At hynny, ni chaiff y corff newydd gyhoeddi'r fath gyngor heb gymeradwyaeth Gweinidogion. (mwy o fanylion gweler 1f isod);
- bydd y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol cyntaf yn cael ei ddatblygu gan y Gweinidog yn hytrach na chan y proffesiynau eu hunain trwy eu corff cofrestru (mwy o fanylion gweler 1g isod);
- bydd yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru (mwy o fanylion gweler 4b isod);
- Gweinidogion Cymru fydd yn penodi holl aelodau'r Cyngor, yn wahanol i'r trefniadau presennol lle mae'r aelodau'n cael eu hethol a'u penodi trwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus ar ôl cael eu henwebu neu'n uniongyrchol. Model mwy cyffredin ymysg cyrff eraill yw i'r corff ei hun benodi aelodau ar sail proses ddethol agored a thryloyw a set ddatblygedig o gymwyseddau i aelodau (mwy o fanylion gweler 4c isod);
- rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun tâl i'w gyflogeion a'i gyhoeddi mewn modd y caiff Gweinidogion ei bennu (mwy o fanylion gweler 4d isod);
- caiff Gweinidogion Cymru bennu pwy sydd i benodi'r Prif Swyddog, y weithdrefn ar gyfer ei benodi, a'i gyflog, telerau ac amodau (mwy o fanylion gweler 4e isod).

Mae'r Cyngor yn credu y byddai manteision pe bai Llywodraeth Cymru'n cadw nifer o'r materion hyn ar hyd braich yn hytrach na chael cyfrifoldeb gweithredol uniongyrchol amdanynt. Byddai ymagwedd o'r fath hefyd yn fwy cyson â phroffesiynau eraill lle mae cofrestru a rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol ac yn dangos ymddiriedaeth y llywodraeth yn y proffesiwn addysgu ehangach (gweler y Rhagair 'Siarter Cynghorau Addysgu').

(d) Croeso i gyflwyno cofrestru amodol

Mae'r Cyngor yn croesawu'r bwriad yn Is-adran 9(5) o'r Bil i ad-drefnu cofrestru presennol athrawon fel y bydd ymarferwyr addysg, yn y dyfodol, yn cael eu cofrestru'n amodol hyd yr adeg y byddant yn bodloni'r gofynion Sefydlu priodol. Mae'r ymagwedd hon yn gyffredin mewn proffesiynau eraill ac yn un mae'r Cyngor wedi dadlau drosti ers amser maith. Bydd yn golygu mai dim ond pan fo ymarferydd wedi dangos tystiolaeth y gall gyflawni ei rôl i'r safon ofynnol mewn ffordd barhaol ac ymarferol (e.e. athro/athrawes yn llwyddo yn y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith) y caiff ei gydnabod fel gweithiwr proffesiynol wedi'i gofrestru'n llawn.

Mae'r Cyngor yn dymuno pwysleisio un mater ymarferol y mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddatblygu deddfwriaeth eilaidd ar y mater hwn. Cyflwynwyd Sefydlu yn Lloegr yn 1999 ac yng Nghymru yn 2003. Bydd angen egluro statws cofrestru pobl a gafodd SAC cyn y dyddiadau hyn.

(e) Hepgor y gofyniad i gofrestru i ymarferwyr mewn ysgolion annibynnol

Mae'r Cyngor yn pryderu nad yw'r Bil yn gosod unrhyw ofyniad am i athrawon a staff cymorth mewn ysgolion annibynnol fod yn gofrestredig. Mewn proffesiynau eraill megis meddygaeth, nyrsio neu ddeintyddiaeth, byddai'n amhosibl meddwl na fyddai meddygon, nyrsys, deintyddion neu'r staff sy'n eu cynorthwyo ac sy'n gweithio mewn practis preifat wedi'u cofrestru ac yn destun rheoleiddio proffesiynol. Dylai gofynion rheoleiddio proffesiynol fod yn berthnasol waeth beth fo lle gwaith yr ymarferydd.

Ar hyn o bryd, gall athro/athrawes gael ei d/diswyddo yn dilyn camymddygiad neu anghymhwysra mewn ysgol annibynnol ond gall barhau i addysgu yn y sector a gynhelir neu yn y sector annibynnol heb unrhyw gyfeiriad at CyngACC (oni fo'r athro/athrawes wedi dewis cofrestru'n wirfoddol). Mae'n amlwg bod hyn yn afresymegol, yn arbennig pan allai athro/athrawes yn y sector a gynhelir fod yn destun honiadau tebyg ac y byddai'n ofynnol yn gyfreithiol i'w gyflogwr/chyflogwr gyfeirio'r mater at CyngACC. Mae'r Cyngor yn barnu **bod angen cau'r bwch hwn trwy i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i athrawon a staff cymorth yn y sector annibynnol gael eu rheoleiddio hefyd.**

(f) Dileu gallu'r Cyngor i gynghori ohono ei hun

Mae Adran 7 o'r Bil yn nodi'r meysydd y caiff y Cyngor wedi'i ailgyflunio gynghori arnynt (maent yn debyg iawn i'r meysydd y caiff CyngACC gynghori arnynt). Mae Deddf 1998 yn galluogi CyngACC i gynghori ar y meysydd penodedig ohono ei hun ac, yn ychwanegol, caiff Gweinidogion ofyn i CyngACC am gyngor mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mae'r Bil yn dweud na chaiff y Cyngor wedi'i ailgyflunio gynghori ohono ei hun (hyd yn oed mewn meysydd penodedig) na phenderfynu pwy y bydd yn ei gynghori heb gydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion (Adran 7(4)); ac na chaiff gyhoeddi ei gyngor ei hun heb gydsyniad ymlaen llaw (Adran 7(7)). Mae'r lefel hon o reolaeth yn ymddangos yn amhriodol i gorff annibynnol.

Fel y mae wedi'i ddrafftio, byddai'r Cyngor yn cael ei rwystro rhag defnyddio ei ddirnadaeth a'i bersbectif yn annibynnol. Nid undeb, arolygiaeth nac un o asiantaethau'r llywodraeth fydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio, ond corff rheoleiddio annibynnol. Fe fydd, fel CyngACC, mewn sefyllfa unigryw ac yn gymwys i siarad ar faterion sy'n effeithio ar y proffesiwn addysgu ehangach, ar sail tystiolaeth o ymchwil, y persbectif a ddarperir o wahanol gyfnodau a buddiannau sectorol, a'r gydlyniaeth mae corff proffesiynol yn ei chynnig. Mewn geiriau eraill, mae'n darparu: *'A clear professional voice, independent of government, but working with (them) to raise standards.'*²

Er enghraifft, arweiniodd y gallu i ymchwilio a chynghori ohono ei hun at gyngor arwyddocaol i Weinidogion ar faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff yng Nghymru.

Enghraifft: Yn dilyn sefydlu CyngACC, roedd undebau athrawon ac eraill yn cymryd yn ganiataol i raddau helaeth, yn dilyn adroddiadau yn y wasg yn y Deyrnas Unedig, fod Cymru'n dioddef argyfwng o ran recriwtio a chadw staff addysgu. Yn 2001 a 2002, gwnaeth CyngACC lawer o waith ymchwil meintiol ac ansoddol i ganfod beth oedd y sefyllfa yng Nghymru, gan arwain at ddarn pwysig o gyngor i'r llywodraeth, y *'Cynllun Gweithredu ar gyfer Recriwtio a Chadw Athrawon yng Nghymru'* yn 2003. Daeth hwn i'r casgliad nad oedd y fath argyfwng yng Nghymru ond nododd fannau lle'r oedd pwysau a materion i gael sylw, megis cyflenwad gormodol o athrawon cynradd. Un o'r lluo o ganlyniadau i hyn oedd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Adolygiad Furlong o Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a'i phenderfyniad yn sgil hwnnw i leihau'r nifer oedd yn cael eu hyfforddi.

² DfEE 1997 Teaching: High status, High standards

Heb y gallu i gynghori'n annibynnol mae'n annhebygol iawn y byddai'r mater hwn wedi dod i'r golwg.

Cydnabyddir bod yna brinder ymchwil addysgol yng Nghymru am Gymru,³ ac mae'n amlwg bod angen a dyhead am gyngor hyd braich, fel y gellir gweld o sefydlu Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru a'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus. Byddai'r Cyngor wedi'i ailgyflunio yn gallu ychwanegu at y sail ymchwil hon yn enwedig gan y byddai ganddo setiau data unigryw trwy ei Gofrestr.

Felly mae'n ymddangos yn groes i'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl i'r Bil sefydlu corff annibynnol sydd mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig dirnadaethau annibynnol, ond ei rwystro rhag gwneud hynny. Byddai'n well i'r Bil, yn y maes hwn o gyngor, alluogi yn hytrach nag analluogi. **Mae'r Cyngor yn gofyn am i eiriad Adran 7 o'r Bil gael ei newid yn unol â geiriad Adran 2 o Ddeddf 1998, gan ganiatáu i'r corff gynghori ohono ei hun.**

(g) Y Cod Proffesiynol cyntaf i gael ei ddatblygu gan Weinidogion

Mae Adran 24 yn dweud y bydd y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol cyntaf yn cael ei baratoi gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r corff newydd ei hun. Mae'r ymagwedd hon yn wahanol i'r hyn a fabwysiadwyd pan gafodd y Cod i athrawon cofrestredig ei ddatblygu gan y corff proffesiynol (CyngACC). Roedd Deddf 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio, diwygio a chyhoeddi Cod. Yn yr un modd, nid yw'r Cyngor yn gwybod am unrhyw broffesiwn arall lle mae llywodraeth wedi datblygu'r Cod yn hytrach na'r corff proffesiynol.

Rydym yn deall y dadleuir y bydd angen i Weinidogion ddatblygu Cod cyn yr ailgyflunio oherwydd y bydd angen i gofrestreion newydd wybod y meini prawf (h.y. mewn Cod) y byddant yn cofrestru'n unol â hwy. Mae'r Cyngor yn anghytuno am y rhesymau canlynol:

- mae yna ffyrdd o ddiffinio cofrestreion heb fod angen am God e.e. mae Adran 16 yn diffinio'n fras y 'gwasanaethau' y bydd gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach yn eu darparu ac a fydd yn sail i Reoliadau yn ymwneud â'u cyflogaeth ac felly eu cofrestriad;
- ar ôl sefydlu'r corff newydd, bydd yna gyfnod o flwyddyn o leiaf cyn y gellid cofrestru'r grwpiau newydd o gofrestreion, gan roi hen ddigon o amser i ddatblygu ac ymgynghori'n llawn ar God ar y cyd gyda hwy a'u cynrychiolwyr, a thrwy hynny creu ymdeimlad o berchnogaeth;
- bydd angen parhad i'r 38,000 o athrawon ysgol sef yr un grŵp fydd yn aros yn gofrestredig ar 1 Ebrill 2015 ac sydd â *Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol* CyngACC ar hyn o bryd.

Wedi cael profiad uniongyrchol o ymgynghori ar God i athrawon, ei ddatblygu a'i ddiwygio, mae'r Cyngor yn pwysleisio na ddylid bychanu maint y dasg hon, gan y bydd yna nifer o bartïon â buddiant yn y Cod, gan gynnwys undebau llafur, cyflogwyr, llywodraethwyr ysgolion, ymarferwyr unigol, sefydliadau addysg uwch a lluo o randdeiliaid eraill megis grwpiau crefyddol a grwpiau cydraddoldeb.

Er bod y Gweinidog wedi dweud y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid i ddatblygu'r Cod cyntaf, eto i gyd, fel y sonnir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n ei chael yn fanteisiol i ymdrin â'r mater hwn yn fwy ar hyd braich yn hytrach na bod yn uniongyrchol atebol am ddatblygu'r Cod.

³ Daugherty, R. Davies, S. (2008). Capacity and quality in Education research in Wales. A stimulus report for the Strategic Forum for Research in Education, forum 1.

Mae'r Cyngor yn gofyn am i Is-adrannau 24(1) a (3) gael eu hail-eirio i'w gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio, yn hytrach na'r Gweinidog, baratoi a chyhoeddi Cod gan ymgynghori fel bo'n briodol.

(h) Angen am ddiffiniad newydd o 'addasrwydd i ymarfer'

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar CyngACC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymchwilio i a chlywed honiadau yn erbyn athrawon cofrestredig a gyhuddir o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwystra proffesiynol difrifol neu drosedd berthnasol. Mewn achosion o'r fath, mae angen i'r Cyngor benderfynu a yw athro/athrawes yn euog ac, os ydyw, a ddylid gosod gorchymyn disgyblu a fyddai â goblygiadau i'w ymarfer fel athro/athrawes yn y dyfodol.

O'r blaen ymgynghorodd Llywodraeth Cymru, gyda chyngor gan y Cyngor, ar symudiad at ymagwedd "addasrwydd i ymarfer".

Mae'r cyrff rheoleiddio sy'n gweithredu ym maes gofal iechyd wedi mabwysiadu modelau addasrwydd i ymarfer ac wrth wneud hynny, wedi symud o ymagwedd ranedig, lle'r oedd ymarferwyr o'r blaen yn wynebu honiadau dim ond mewn categorïau megis camymddygiad proffesiynol difrifol neu gollfarn o drosedd berthnasol, i ymagwedd fwy cyfannol. Mae'r symudiad hwn wedi cael ei adlewyrchu wrth ystyried un mater, sef a amharwyd ar addasrwydd yr ymarferydd i ymarfer, er oherwydd un neu fwy o restr o ffactorau. Mae'r rhestr ffactorau sy'n berthnasol i'r cyrff rheoleiddio iechyd, er nad ydynt wedi'u geirio yn yr un modd yn union yn achos yr holl reoleiddwyr, yn cynnwys y canlynol:

- camymddygiad
- perfformiad proffesiynol diffygiol neu ddiffyg cymhwysedd
- collfarn neu rybuddiad am drosedd
- afiechyd corfforol neu feddyliol
- penderfyniad gan gorff rheoleiddio arall
- cael ei gynnwys ar restr gwahardd

Mae'r Bil yn parhau i ddefnyddio'r diffiniadau presennol sydd ar wahân sef 'ymddygiad proffesiynol annerbyniol', 'anghymhwysedd proffesiynol difrifol' a 'wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol'. Mae'r rhain yn faterion sy'n cyfateb i'r tri ffactor cyntaf yn y rhestr uchod ac y gellid dibynnu arnynt fel rheswm dros ddod i'r casgliad yr amharwyd ar addasrwydd yr ymarferydd addysg i ymarfer. Rydym yn deall bod cyfreithwyr Llywodraeth Cymru wedi dweud y gellid darparu ar gyfer ymagwedd addasrwydd i ymarfer at waith disgyblu mewn Rheoliadau. Mae'r Cyngor wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ei hun ac rydym wedi cael ein cynghori nad ydynt yn credu bod y Bil yn sefydlu model addasrwydd i ymarfer nac yn gosod sylfaen briodol i fodel addasrwydd i ymarfer gael ei weithredu'n rhwydd trwy Reoliadau.

Yr unig gyfeiriad at 'addasrwydd i ymarfer' yn y Bil yw yn Adran 7 (2) (c). Nid yw'r ddarpariaeth hon yn ymwneud yn uniongyrchol â'r swyddogaeth disgyblu, ond gyda'r cyngor y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ei ddarparu. Nid yw Adrannau 26 i 32 o'r Bil, sy'n ymdrin â swyddogaethau disgyblu, yn cyfeirio o gwbl at addasrwydd i ymarfer nac at amhariad.

Mae'r cyngor cyfreithiol a gafodd CyngACC fel a ganlyn:

Mae Adran 26 (5) o'r Bil yn rhagweld gwneud gorchymyn disgyblu os penderfynir bod person yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol. Mewn model addasrwydd i ymarfer, ni ellid gwneud gorchymyn disgyblu ond pe penderfynid yr amharwyd ar addasrwydd person i ymarfer ar y pryd oherwydd camymddygiad, anghymhwystra neu gollfarn o

drosedd berthnasol. Gellir cyferbynnu Adran 26 gydag Adran 13D o Ddeddf Optegwyr 1989, sy'n cyfeirio at honiad yr amharwyd ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer ac yn nodi'r sail y gellir canfod amhariad ar addasrwydd i ymarfer arni. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag addasrwydd optometryddion ac optegwyr cyflenwi cofrestredig i ymarfer, felly, yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol.

Cydnabyddir bod Adran 28 o'r Bil yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ynghylch neu mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Cyngor o dan Adran 26 ac, o dan Adran 28 (2) (a), y gall hyn gynnwys darpariaeth ynghylch y weithdrefn i'w mabwysiadu sy'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliad neu drafodion. Fodd bynnag, nid dim ond ffactor ychwanegol i gael ei ystyried ar gam diweddarach trafodion yw cysyniad amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Mae amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn sylfaenol i'r trafodion eu hunain. Er enghraifft, mae'n berthnasol wrth benderfynu a oes achos i'w ateb y dylid ei gyfeirio ar gyfer gwrandawriad. Mewn model addasrwydd i ymarfer, y prawf 'achos i'w ateb' ddylai fod a oes tebygrwydd gwirioneddol o gael canfyddiad o amhariad ar yr addasrwydd i ymarfer. Mae'r cwestiwn hwn yn sylfaenol wahanol i'r cwestiwn a oes tebygrwydd gwirioneddol o gael canfyddiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol. Y pryder yma yw yr ymddengys fod cyswllt anorfod rhwng defnyddio'r prawf 'achos i'w ateb' yn 26(3) a'r honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac ati yn Adran 26(1). Ein barn ni yw bod angen diwygio Adran 26 er mwyn cyflwyno neu hwyluso cyflwyno model addasrwydd i ymarfer sy'n gyfaradwy â'r modelau a weithredir gan gyrff rheoleiddio iechyd.

Hefyd, mae Adran 4 (1) (f) yn dweud mai un o brif swyddogaethau'r Cyngor yw ymchwilio i ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu drosedd berthnasol a chymryd camau priodol yn unol ag adran 26. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan Adran 28 yn gyfyngedig i reoliadau ynghylch swyddogaethau'r Cyngor o dan 26 neu mewn cysylltiad â hwy ac nid gyda diwygio swyddogaethau o dan Adran 4. Mae yna bŵer i ychwanegu swyddogaethau o dan Adran 5, ond mae'r pŵer hwnnw i ddarparu ar gyfer swyddogaethau ychwanegol yn hytrach na diwygio'r rheiny a nodir yn Adran 4. Barn cyfreithwyr y Cyngor yw ei bod yn debygol y bydd angen diwygio Adran 4 (1) (f).

Yn olaf, mae hefyd yn werth nodi nad oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil at iechyd corfforol na meddyliol y cofrestrai, ac ymddengys fod hyn yn groes i'r ymagwedd gyfannol a ragwelir gan gysyniad addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Cyngor yn gofyn am i Adrannau 26 a 4(1) (f) gael eu diwygio fel eu bod yn galluogi'r Cyngor newydd i gyflwyno ymagwedd addasrwydd i ymarfer.

(i) **Gwaith achos presennol CyngACC ym maes safonau proffesiynol – y maint a ragwelir**

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor oddeutu 38,000 o athrawon cofrestredig. Rhagwelir y bydd nifer y cofrestreion yn codi i fwy na 70,000 ar ôl i bob un o'r grwpiau newydd yn y gweithlu addysg ehangach gael eu cofrestru.

Yn nhrefodaethau'r Cynulliad Cenedlaethol hyd yma, bu rhywfaint o ddryswch ynghylch nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at y Cyngor. I gynorthwyo'r Pwyllgor, ceir yn Atodiad G rywfaint o wybodaeth ystadegol lefel uchel ar nifer yr achosion safonau proffesiynol mae'r Cyngor yn ymchwilio iddynt ar hyn o bryd.

O gofio mater cofrestru'r gweithlu addysg ehangach, gellir disgwyl i'r nifer hon gynyddu'n gymesur. Dylai'r Pwyllgor hefyd nodi bod CyngACC a'r rhan fwyaf o reoleiddwyr eraill yn gweld cynnydd yn nifer y cyfeiriadau bob blwyddyn.

(j) **Diffyg cymalau ar safonau proffesiynol, achredu hyfforddiant cychwynnol a sicrhau ansawdd DPP**

Dywedodd y cyflwyniad i ddwy ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, “*Un o nodweddion amlycaf llawer o broffesiynau yw bod eu haelodau'n cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod (pwyslais CyngACC) ac yn cynnal safonau proffesiynol, a thrwy hynny'n ennyn hyder y cyhoedd*”.

Yn ei hymgyngoriad cyntaf, cynigiodd Llywodraeth Cymru “...[y] dylai'r corff cofrestru newydd neu'r corff sydd wedi'i ailgyfansoddi, pa un bynnag y penderfynir arno, gael swyddogaethau ehangach gam wrth gam. Gallai'r rheini gynnwys cymeradwyo cyrsiau hyfforddiant cychwynnol, y gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gosod safonau proffesiynol.”

Gan adeiladu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf hwnnw, dywedodd y cyn Weinidog Addysg, Leighton Andrews, yn y cyfarfod llawn ar 19 Mehefin2012,

“Rwyf hefyd yn gweld yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i ystyried sut y gallwn wella cysondeb safonau proffesiynol cychwynnol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Rhaid i'r corff newydd ymwneud yn uniongyrchol â sefydliadau hyfforddiant cychwynnol, yn union fel yn Iwerddon, lle y mae gan y corff priodol rôl o ran cymeradwyo'r hyfforddiant i athrawon a hyfforddiant addysg bellach. Bydd y swyddogaethau newydd hyn yn cael eu cyflwyno'n raddol dros amser yn unol â chynllun cyflawni y cytunwyd arno.”

Wedi hynny ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar rôl i'r corff wedi'i ailgyflunio yn y gwaith o achredu cymwysterau a'u cymeradwyo'n broffesiynol. Cynigiodd yr ymgynghoriad hwnnw y dylid galluogi'r corff i gyflawni gwaith ochr yn ochr â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol, yn ogystal ag ymgymryd â swyddogaeth gynghori. Aeth Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud, “*Rydym yn sylweddoli y gall achredu/rhoi cymeradwyaeth broffesiynol ddod â buddion yn ei sgil o ran sicrhau bod cyrsiau yn berthnasol i gyflogwyr a bod y gweithlu yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol...*”

Felly mae'n glir mai'r bwriad oedd i'r Cyngor fod â rolau gweithredol yn y tri maes hyn:

- perchnogaeth ar safonau proffesiynol;
- cyfrifoldeb am gymeradwyo priodoldeb proffesiynol cyrsiau hyfforddiant cychwynnol; neu
- sicrhau ansawdd datblygiad proffesiynol parhaus.

Eto i gyd nid yw'r Bil yn pennu y bydd y cyfrifoldebau hyn gan y corff wedi'i ailgyflunio. Mae'r Bil yn cynnig rôl cyngori yn unig i'r corff ym meysydd 'hyfforddi, datblygu gyrfa a rheoli perfformiad personau cofrestredig' 7(2)(f) – ac mae'r rôl hon yn gyfyngedig gan y gofyniad am gydsyniad Gweinidogion.

Yn lle hynny, mae Adran 5 ('Y pŵer i ychwanegu swyddogaethau') o'r Bil drafft yn galluogi Gweinidogion i roi neu osod swyddogaethau ychwanegol 'sy'n briodol yn eu barn hwy'. Mae'r Cyngor yn credu bod hyn yn rhy amhenodol ac agored i'w ddehongli. Ar sail profiad blaenorol y Cyngor, mae'n debygol y bydd y bwriadau gwreiddiol y tu ôl i hyn yn cael eu hanghofio ac na wneir unrhyw gynnydd yn y maes. **Byddai'n well o lawer i'r ddeddfwriaeth sylfaenol wneud y swyddogaethau hyn yn eglur a'u deddfu yn raddol trwy ddeddfwriaeth eilaidd.**

Yn gyson â chyrrff proffesiynol eraill gan gynnwys meddygaeth, nyrsio, cyfrifyddiaeth, peirianneg, mae'n briodol i'r proffesiwn addysg ehangach arfer y swyddogaethau ym Mharagraff 5.

Nodwyd y ddadl dros berchnogaeth gan y proffesiwn neu ar y cyd ar safonau o SAC i arweinyddiaeth yn haen gyntaf cyngor y Cyngor ar 'Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i Athrawon' a ddatblygwyd ar gais y Gweinidog ar y pryd:

http://www.gtcw.org.uk/gtcw/images/stories/downloads/framework/Framework_advice_to_Assembly_July_2005_CYM.pdf (Gweler Pennod 9)

O ran achrediad proffesiynol i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Gofynion ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru' sy'n croesgyfeirio at gyrsiau sy'n paratoi myfyrwyr i fodloni safonau SAC. Nid yw'r gofynion hyn yn nodi'r meysydd cynnwys y dylai pob cwrs addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon ymdrin â hwy.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r ddadl dros i'r corff proffesiynol achredu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ac mae'r un dadleuon yn berthnasol i achredu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol eraill (Atodiad D). Mae'n glir o'r tabl ar ddiwedd y papur safbwynt hwnnw bod CyngACC yn unigryw ymysg rheoleiddwyr gan nad oes ganddo swyddogaethau achredu cyrsiau o'r fath.

Mae gan y Cyngor Addysgu yn Iwerddon bwerau i achredu cyrsiau hyfforddiant athrawon fel rhai sy'n broffesiynol briodol. Ceir ei weithdrefn ar gyfer gwneud hyn yn Atodiad E. Mae'n debyg mewn llawer o ffyrdd i'r system a weithredir yn yr Alban. Byddai'n gymharol hawdd i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio ddyfeisio system o'r fath ar sail systemau Iwerddon a'r Alban a gâi ei gweinyddu trwy'r Cyngor gan arbenigwyr annibynnol o'r sector addysg gychwynnol athrawon, Estyn ac eraill. Mae'r sector addysg uwch ei hun wedi arfer â chael cyrff proffesiynol yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gymeradwyo cyrsiau a gynigir gan brifysgolion ar ran proffesiynau eraill megis nyrsio neu beirianeg. Mae gan CyngACC berthnasoedd effeithiol ac ymarferol gyda'r sector addysg gychwynnol athrawon a fyddai'n mynd yn bell wrth helpu i gyflwyno'r fath system yn ddidrafferth. Felly mae'r Cyngor yn credu y byddai'n gymharol syml, gan weithio gyda phartneriaid, i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Yn 2007, cyflwynodd CyngACC, hefyd ar gais y Gweinidog ar y pryd (yn dilyn cyngor CyngACC 'Datblygiad Proffesiynol Parhaus : Hawl i Bawb' (2002), adroddiad ar ffyrdd o sichau ansawdd y ddarpariaeth DPP trwy God Ymarfer i Ddarparwyr a chadw rhestr Cymru gyfan o'r DPP sydd ar gael. Gweler pedwaredd haen cyngor y Cyngor ar 'Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i Athrawon':

[http://www.gtcw.org.uk/gtcw/images/stories/downloads/framework/Strand%203+4%20Advice\(W\).pdf](http://www.gtcw.org.uk/gtcw/images/stories/downloads/framework/Strand%203+4%20Advice(W).pdf) (Gweler Rhan B)

(k) Diffyg cymal yn galluogi'r corff i gyflawni gweithgareddau ym maes datblygiad proffesiynol parhaus

Mae swyddogaethau presennol CyngACC fel y'u nodir yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch (Is-adran 9(2)) yn dweud y caiff Gweinidogion, "*require the General Teaching Council for Wales to undertake (or join with any other persons or body in undertaking) activities designed to promote-*

- o *recruitment to the profession, or*
- o *continuing professional development of teachers.*"

Nodir 'Hybu gyfaoedd' yn Adran 8 o'r Bil, fodd bynnag nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil yn galluogi'r Cyngor i gyflawni gweithgareddau ym maes DPP.

Mae hwn yn gymal pwysig gan mai ef yw'r sail gyfreithiol bresennol i CyngACC gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud ag ariannu a gweinyddu rhaglenni Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Rhwng 2001 a 2009, fe'i defnyddiwyd hefyd fel y sail i CyngACC weinyddu rhaglen ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddiwallu anghenion unigol athrawon o ran DPP. Gellid

bod wedi'i ddefnyddio'n ehangach i alluogi CyngACC i gyflawni gweithgarwch arall ym maes DPP.

Barn cyfreithwyr y Cyngor yw y byddai parhau â'r swyddogaeth hon yn golygu y byddai'n ofynnol naill ai cael darpariaeth benodol amdano yn y Bil neu wneud Rheoliadau priodol o dan Adran 5 ond byddai'r ail ddewis yn golygu y byddai'n ofynnol i ymgynghori â chyrrff megis CyngACC. Barn ein cyfreithwyr yw na allai'r Llywodraeth ddibynnu'n hyderus ar y ddarpariaeth ym Mharagraff 17 o Atodlen 1 i awdurdodi meysydd gweithgarwch gweithredol megis cynorthwyo â datblygiad gyrfaal cynnar athrawon.

Mae'r Cyngor o'r farn bod diffyg cymal yn galluogi'r corff wedi'i ailgyflunio i gyflawni gweithgareddau ym maes DPP yn hepgoriad pwysig. Hebdo, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n cael nad yw'n gallu gofyn yn hyderus i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio i weinyddu rhaglenni DPP ar ei rhan o 1 Ebrill 2015 ymlaen ac o ganlyniad na fydd efallai'n gallu cynnal parhad y trefniadau Sefydlu a Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol ar gyfer athrawon ysgol ar draws y newid o CyngACC i'r corff wedi'i ailgyflunio.

Byddai ychwanegu cymal yn y Bil (tebyg i 9(2) o Ddeddf 1998) yn datrys hyn ac yn dileu'r angen am ddeddfwriaeth eilaidd yn y maes hwn.

(l) Y pŵer i Weinidogion gyfarwyddo'r Cyngor

Mae Adran 6 yn dweud bod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â chyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol a roddir iddo gan Weinidogion Cymru, ac eithrio mewn cysylltiad ag achosion o geisiadau unigol ac apeliadau sy'n ymwneud â chofrestru ac achosion disgyblu penodol.

Nid oes cymal o'r fath yn bodoli yn Neddf 1998 mewn perthynas â CyngACC. Pennir terfynau pwerau CyngACC yn y Ddeddf. Byddai'n gweithredu mewn modd *ultra vires* pe bai'n mynd y tu hwnt i'r pwerau hynny. Mae'r Cyngor yn barnu ei fod yn gwbl amhriodol i Weinidog fod â phwerau cyfarwyddo dros gorff proffesiynol annibynnol. Dylai'r berthynas weithio rhwng Gweinidogion a'r corff proffesiynol fod yn un sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth yn y naill gan y llall a pharch gan y naill at y llall.

Nid mater gwleidyddol yw rheoleiddio proffesiynol, a dylai unrhyw benderfyniad ar weithgareddau'r Cyngor fod yn wirioneddol annibynnol ar y llywodraeth. Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd annibyniaeth y corff yn fuddiol, gan fod hyn yn caniatáu pellter oddi wrth unrhyw weithredoedd a allai fod yn chwithig neu'n lletchwith

Mae CyngACC yn pwysleisio nad corff a noddir gan Lywodraeth Cymru fydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio ac y caiff ei ariannu gan ffioedd cofrestru ymarferwyr.

Mae'r Cyngor yn dadlau dros ddileu'r cymal hwn.

(m) Enw arfaethedig y sefydliad

Mae isadran 2(1)(b) o'r Bil yn cynnig ailenwi CyngACC yn 'Gyngor y Gweithlu Addysg'.

Buasai'n well gan CyngACC gadw ei enw presennol - byddai ailgyflunio'r ffordd y'i llywodraethir wedi dangos ei fod yn gorff wedi'i ailgyflunio gyda chwmpas ehangach a chyfrifoldebau newydd. (Ychydig o flynyddoedd yn ôl, symudodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o gofrestru deintyddion yn unig i gofrestru pob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd deintyddol heb newid ei enw ac mae yna enghreifftiau tebyg o gyrff proffesiynol gydag ystod eang o gofrestreion e.e. Cyngor Gofal Cymru a'r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg.)

Er hynny, gall y Cyngor ddeall awydd y llywodraeth i ailenwi CyngACC o safbwynt cofrestreion newydd, yn arbennig y rheiny o'r sector addysg bellach.

Fodd bynnag, wrth ailenwi'r corff, mae yna nifer o ffactorau arwyddocaol y mae'r Cyngor yn credu na roddwyd digon o bwys iddynt:

- Pa mor briodol yw'r enw wrth ddisgrifio'r gweithgarwch proffesiynol mae'r grwpiau a reoleiddir yn ei gyflawni. Mae'r teitl, 'Cyngor *Addysgu* Cyffredinol Cymru' yn canolbwyntio ar y gweithgarwch proffesiynol - Cyngor *Addysgu* yw CyngACC ac nid Cyngor *Athrawon*. Mae defnyddio'r gair 'Gweithlu' yn rhoi pwyslais amhriodol ar aelodau unigol y proffesiwn yn hytrach nag ar y gweithgarwch proffesiynol maent yn ei gyflawni;
- Proffesiwn yw addysgu. Yr un ffactor cyffredin yw y bydd y corff wedi'i ailenwi'n rheoleiddio pawb sy'n ymwneud ag addysgu neu gymorth i addysgu, beth bynnag fo'r sector. Rydym yn credu na fydd yr enw arfaethedig yn gwneud unrhyw les i statws proffesiynol addysgu a, thrwy ddileu' addysgu' o deitl y sefydliad a rhoi 'gweithlu' yn ei le, y bydd yn tanseilio'r statws hwnnw.
- Dylai'r enw gymryd i ystyriaeth y ffaith mai athrawon ysgol fydd y grŵp mwyaf o hyd a fydd wedi'u cofrestru gyda'r corff wedi'i ailgyflunio (38,000, dros hanner y boblogaeth cofrestreion newydd). Felly bydd yn bwysig eu diogelu rhag colli hunaniaeth eu corff proffesiynol cydnabyddedig sefydledig.

Dywedodd y Gweinidog, Huw Lewis, yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 19 Gorffennaf 2013 fod enw arfaethedig y Cyngor yn disgrifio'r hyn mae'n ei wneud "ar y tun". Mae'r Cyngor yn anghytuno. Mae'r gweithlu addysg yn ehangach o lawer na'r athrawon a'r staff cymorth addysgu a fydd yn cael eu rheoleiddio gan y corff wedi'i ailgyflunio. Nid yw'r Bil yn cynnig cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chymorth i addysg yn anuniongyrchol - gofalwyr, cogyddion, staff gweinyddol ac atodol, er enghraifft. At hynny, nid yw'r Bil yn cynnwys staff Dysgu Seiliedig ar Waith na gweithwyr ieuencid.

Rydym ar ddeall y byddai'n well gan undebau llafur sy'n cynrychioli cynorthwywyr addysgu y gair 'proffesiwn' yn enw'r sefydliad newydd, gan y byddai'n helpu i gysylltu eu haelodau gyda statws proffesiynol uwch. Mae yna rai partneriaethau undebau llafur eisoes â'r gair 'Gweithlu' yn y teitl e.e. 'Cyngor Partneriaeth y Gweithlu' ac rydym yn credu y bydd rhoi'r enw 'Cyngor y Gweithlu Addysg' ar y corff newydd yn achosi rhywfaint o ddryswch.

Mae modd dadlau hefyd y dylid cynnwys 'Cymru' yn enw'r corff wedi'i ailgyflunio.

Mae yna fater ymarferol iawn hefyd wrth gynnig enw'r corff newydd. Rhaid i'r enw weithio pan gaiff ei dalfyrru a rhaid bod enwau parthau gwe ar gael, gan gynnwys fersiynau Cymraeg. Wrth chwilio ar y we, mae 'EWC' (sef yr hyn y byddai 'Education Workforce Council' yn siŵr o gael ei dalfyrru iddo) yn dangos nifer fawr o gyfeiriadau at wastraff amgylcheddol.

Rydym yn dadlau bod yn rhaid cadw'r gair 'addysgu' a/neu 'proffesiynau' yn nheitl y corff wedi'i ailenwi. Mae'n bosibl y byddai rhywbeth tebyg i 'Cyngor y Proffesiynau Addysgu ac Addysg' yn enw priodol a fyddai'n helpu i ddangos cwmpas ehangach y Cyngor ac ar yr un pryd yn cadw rhywfaint o barhad i athrawon ysgol.

Pe bai ymarferwyr addysg eraill yn cael eu cynnwys o dan reoleiddio proffesiynol ar ryw adeg, gellid newid enw'r sefydliad ar yr adeg honno. Mae yna gynseiliau i hyn (e.e. 'Cyngor Cwricwlwm Cymru' -> 'Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru' -> 'Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru')

(n) Tabl cryno yn cymharu pwerau presennol CyngACC a phwerau arfaethedig y Bil ar gyfer y corff wedi'i ailgyflunio

<u>CyngACC</u>	<u>Cynigion y Bil ar gyfer y corff wedi'i ailgyflunio</u>
y nodau yw gweithredu er lles y cyhoedd	dim cyfeiriad at weithredu er lles y cyhoedd
cyflawni gweithgareddau i hybu datblygiad proffesiynol parhaus athrawon (ar gais Gweinidogion)	dim cyfrifoldebau yn y maes hwn
mae CyngACC yn gorff rheoleiddio proffesiynol annibynnol gyda chyfrifoldebau a gyfyngir gan ddeddfwriaeth sylfaenol	rhaid cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol neu benodol a roddir iddo gan Weinidogion (ac eithrio mewn cysylltiad ag achosion unigol sy'n ymwneud â chofrestru a disgyblu)
gall gynghori ar faterion penodol yn ymwneud ag addysgu fel y gwêl y Cyngor yn dda	ni all gynghori ar faterion penodol yn ymwneud ag addysgu heb gydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion
gall gynghori personau neu gyrff fel bo'r Cyngor yn penderfynu	angen cydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion mewn perthynas â'r sawl sy'n cael cyngor
gall gyhoeddi ei gyngor	ni all gyhoeddi cyngor ond gyda chydsyniad Gweinidogion
caiff CyngACC osod y ffioedd cofrestru gyda chymeradwyaeth Gweinidogion	Gallai swm y ffi a phwy fydd yn pennu'r ffi gael eu penderfynu gan drydydd parti ar wahân i'r Cyngor
mae CyngACC wedi'i awdurdodi i lunio a diwygio Cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol	rhaid i Weinidogion baratoi a chyhoeddi'r cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol cyntaf
mae CyngACC wedi'i gyfyngu gan y pwerau a nodir yn y Ddeddf	gall Gweinidogion roi cyfarwyddiadau penodol neu gyffredinol i'r Cyngor
mae Rheoliadau'n galluogi ethol a phenodi aelodau'r Cyngor	mae Rheoliadau'n galluogi penodi aelodau'r Cyngor gan Weinidogion
caiff CyngACC benodi ei Brif Swyddog, ei dâl a'i delerau ac amodau	caiff Gweinidogion bennu pwy sydd i benodi'r Prif Swyddog, y weithdrefn ar gyfer ei benodi, ei dâl, telerau ac amodau
caiff CyngACC dalu tâl i'w weithwyr fel bo'n penderfynu	rhaid i Weinidogion gymeradwyo'r cynllun tâl i'w weithwyr a'i gyhoeddi ar ffurf y caiff Gweinidogion ei phennu

(o) Newidiadau a gynigir i eiriad cymalau

Mae'r newidiadau ychwanegol a gynigir i eiriad rhai cymalau yn Atodiad H.

2. RHWYSTRAU POSIBL I ROI'R DARPARIAETHAU AR WAITH

a) Y risg na fydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio'n denu ymroddiad proffesiynol ehangach

Mae Adran 1 o'r cyflwyniad hwn yn nodi'r meysydd lle mae CyngACC yn credu y bydd annibyniaeth y Cyngor wedi'i ailgyflunio yn cael ei llyffetheirio. Po fwyaf mae gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu rheoli gan y gofyniad i gael cymeradwyaeth neu ganiatâd Gweinidogion trwy Reoliadau, lleiaf o hygyrdded fydd i honiad y Cyngor ei fod yn darparu rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol.

Ni fydd yr adran hon yn ailadrodd manylion y ddatl a nodir yn Adran 1 o'r cyflwyniad hwn, ond mae'n crynhoi'r pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- dylai aelodaeth y Cyngor gael ei gweld yn glir fel un sy'n 'cynrychioli' profiad y grŵp ehangach o ymarferwyr addysg, gan gynnwys athrawon addysg bellach a staff cymorth addysgu yn ogystal ag athrawon mewn ysgolion. Ni fydd penodi holl aelodau'r Cyngor gan y Gweinidog yn cynorthwyo â'r ddirnadaeth hon o'r corff;
- mae'r cynnig y byddai'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol cyntaf yn cael ei ddatblygu gan y Gweinidog (er gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid fel mae'r Gweinidog wedi dweud) yn creu risg y caiff y Cod ei ystyried yn rhywbeth sydd wedi cael ei osod ar y proffesiwn ehangach, yn hytrach na rhywbeth sydd wedi cael ei ddatblygu gan y gweithwyr proffesiynol y mae'n ofynnol iddynt gadw ato. Gall y broses o ddatblygu'r Cod cyntaf fod yn ffurfiannol i'r corff newydd, gan hwyluso deialog agored gyda chofrestreion, undebau a rhanddeiliaid ynghylch materion yn ymwneud ag ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol (fel y bu un 2000-01 i CyngACC, oedd newydd ei sefydlu);
- bydd anallu'r Cyngor o dan gynigion y Bil i gynghori ohono ei hun, heb gymeradwyaeth gan Weinidogion ymlaen llaw, yn rhoi'r argraff y rhoddwyd taw arno wrth siarad am faterion proffesiynol fel y mae'n eu gweld. Byddai'n debygol na fyddai caniatâd ond yn cael ei roi i gynghori ar flaenoriaethau polisi'r llywodraeth neu'r Gweinidog ar y pryd – pan mai gwerth y Cyngor yw'r trosolwg a phersbectif proffesiynol eang y mae'n dod â hwy i faterion eang;
- bydd rheolaethau dros y ffrwd incwm gan y Gweinidog (neu unrhyw gorff arall ac eithrio'r Cyngor) yn gwneud y Cyngor yn atebol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i'r cofrestreion sy'n talu ffioedd iddo. Bydd hyn yn cryfhau'r ddirnadaeth mai cwango, ac nid corff proffesiynol, yw'r Cyngor;
- bydd rheolaethau gan Weinidogion dros weithrediad mewnol y Cyngor, megis y cynllun tâl i gyflogeion y Cyngor a phenodi Prif Swyddog y Cyngor, yn awgrymu i gofrestreion nad yw'r corff yn annibynnol ar y llywodraeth;
- byddai athrawon ysgol yn gweld bod y potensial i'w corff proffesiynol wedi'i ailgyflunio ddylanwadu a llunio materion wedi'i wanhau o'i gymharu â statws a phwerau presennol CyngACC. Athrawon ysgol fydd y grŵp cofrestreion mwyaf o hyd yn y Cyngor wedi'i ailgyflunio a gallai hyn arwain at farn negyddol amdano.

Gellir lleihau'r risg hon yn sylweddol trwy fynd yn ôl at y paramedrau perthnasol i CyngACC fel y'u nodwyd yn Neddf 1998 (fel y'i diwygiwyd) a dileu'r rheolaethau ychwanegol gan Weinidogion a gynigir yn y Bil drafft.

b) Risg cyfathrebu gwael gyda grwpiau cofrestreion newydd cyn ailgyflunio'r Cyngor

Ym mis Medi 2000, pan ddaeth CyngACC i fod, nid oedd unrhyw gyfathrebu wedi bod cyn hynny gydag athrawon mewn ysgolion ynghylch y Cyngor nac ynghylch buddion rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol. Roedd bodolaeth y Cyngor yn syndod i'r rhan fwyaf o athrawon a chreodd hyn her fawr i sefydlu hygrdedd CyngACC.

Mae CyngACC yn credu y bydd y corff wedi'i ailgyflunio'n wynebu'r un her yn union gyda grwpiau cofrestreion newydd **oni fydd** ymgyrch cyfathrebu ar y cyd gyda hwy. Mae hyn yn waith i'w wneud cyn i'r Cyngor gael ei ailgyflunio.

Yn wahanol i'r sefyllfa yn 2000, mae bodolaeth CyngACC yn golygu bod y sefydliad a fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gwmpas ehangach o gofrestreion a swyddogaethau eisoes ar waith ac yn weithredol. Felly, mae yna botensial i'r corff gynnal ymgyrch cyfathrebu cyn iddo gael ei ailgyflunio.

Fel rhan o'i waith arferol o ymgynghori â rhanddeiliaid dros y blynyddoedd, mae CyngACC wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gydag amrywiaeth fawr o gyrff gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau cofrestreion newydd e.e. undebau sy'n cynrychioli cynorthwyrwyr addysgu, cyflogwyr addysg bellach trwy *Golegau Cymru*. Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda phenaethiaid ysgolion wedi tynnu eu sylw at gynigion ymgynghori cynharach Llywodraeth Cymru i ehangu cofrestru i gynorthwyrwyr addysgu yn eu hysgolion. Felly mae sefydliadau cynrychioladol yn gwybod am fanylion ymgynghoriadau cynharach Llywodraeth Cymru a chynigion y Bil.

Fodd bynnag, ar lawr gwlad ymysg athrawon addysg bellach a staff cymorth addysgu, ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth sydd am rôl a swyddogaethau arfaethedig yr hyn a fydd, iddynt hwy, yn gorff proffesiynol newydd. Bydd gan gofrestreion newydd gwestiynau sylfaenol y bydd angen rhoi sylw iddynt, er enghraifft, y gwahaniaethau rhwng corff proffesiynol ac undeb llafur, ymholiadau am y ffi gofrestru neu'r berthynas rhwng achosion disgyblu cyflogwr a chorff proffesiynol. Heb esboniad cynnar o gyfrifoldebau, swyddogaethau a buddion rheoleiddio dan arweinyddiaeth broffesiynol, bydd yn hawdd i'r corff wedi'i ailgyflunio gael ei bortreadu fel corff cosbi sydd heb rôl yn y gwaith o wella proffesiynoldeb y rheiny y mae'n eu rheoleiddio. Dylai ymgyrch cyfathrebu gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chofrestreion newydd yn ogystal ag ymgysylltu â sefydliadau cynrychioladol.

Ni ddylid diystyru pa mor anodd y bydd hi i gyfleu gwerth rheoleiddio proffesiynol. Mae natur gwaith rheoleiddio'n golygu na fydd cofrestreion yn gweld buddion personol ar unwaith yn yr un modd ag y byddent efallai'n disgwyl eu gweld fel aelod unigol o gymdeithas neu undeb athrawon. Mae effaith rheoleiddio proffesiynol yn llawer mwy hirdymor ei natur, er enghraifft ar hunanhyder proffesiynol, statws ac agweddau'r cyhoedd at y proffesiwn. Er enghraifft, mae gwaith achos safonau proffesiynol - sydd weithiau'n arwain at gyhoeddusrwydd negyddol i'r nifer fach iawn o athrawon dan sylw - yn y bôn yn weithred *gadarnhaol* gan broffesiwn aeddfed sydd wedi'i baratoi ac sy'n gallu cynrychioli'r safonau uchel y mae'r mwyafrif helaeth yn cadw atynt (yn achos athrawon, llawer mwy na 99.9%) - ond yn aml gall y neges hon fynd ar goll.

Felly argymhellir ymgyrch cyfathrebu, sy'n canolbwyntio ar grwpiau cofrestreion newydd, cyn gynted ag y daw'r ddeddfwriaeth i rym o fis Ebrill 2014 ymlaen. Cyn ei ailgyflunio, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arian i alluogi CyngACC i gyflawni hyn. **Bydd ymgyrch lwyddiannus yn hanfodol er mwyn i'r corff wedi'i ailgyflunio ymsefydlu'n gadarn.** Mae'r Cyngor yn dadlau y dylai'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gyfleu'r neges bwysig hon i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithredu'r Bil hwn.

c) Y risg na chaiff y corff newydd ei roi ar sylfaen ariannol gadarn

Mae Adran 3 o'r cyflwyniad hwn yn nodi'r risgiau os yw eraill yn penderfynu cyllid y Cyngor.

Afraid dweud bod unrhyw fusnes annibynnol yn y sefyllfa orau i benderfynu'r incwm mae ei angen i ariannu ei weithgareddau.

Mae profiad CyngACC wedi bod yn un rhwystredig oherwydd mae ei incwm wedi cael ei reoli trwy fetu Gweinidogion dros ei ffi gofrestru ac eto y Cyngor sydd â'r cyfrifoldebau rheoleiddio a chynghori statudol ynghyd â'r gwariant cysylltiedig sy'n ganlyniad iddynt (y mae rhan sylweddol ohono'n waith achos sy'n seiliedig ar alw).

Rhaid ymddiried yn y Cyngor wedi'i ailgyflunio i osod ei ffioedd ei hun. Dim ond fel hyn y bydd y Cyngor yn gallu cyllidebu'n briodol ac y bydd modd gosod y corff ar sylfaen ariannol gadarn.

3. GOBLYGIADAU ARIANNOL Y BIL

Mae'r adran hon yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag incwm y Cyngor wedi'i ailgyflunio o ffioedd cofrestru, mater cyflogwyr yn ad-dalu cofrestreion, a'r meysydd hynny sy'n gyfrifoldeb cyhoeddus ac y dylid talu amdanynt o bwrs y wlad. Mae'r materion ariannol allweddol, ym marn CyngACC, fel a ganlyn:

a) Dylid cyfrifo ffioedd cofrestru ar sail cost gweithgareddau statudol y Cyngor ac nid ar sail penderfyniadau ynghylch lefel ad-daliadau i gofrestreion

Rhaid i'r corff cofrestru gyfrifo'r ffioedd cofrestru gofynnol ar sail cyllideb lawn a manwl ar gyfer y rhaglen gweithgareddau arfaethedig am y flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth nifer ragweledig y cofrestreion fydd yn talu ffioedd.

Ni ddylid drysu hyn ag unrhyw gymhorthdal a delir gan y cyflogwr i'r cofrestreion. Mae ad-dalu ffi neu ran o ffi i gofrestreion yn fater i'r cyflogwr yn llwyr ac ni ddylai fod yn berthnasol i'r Cyngor wrth gyfrifo lefel yr incwm sy'n ofynnol i gyflawni ei weithgarwch rheoleiddio a chynghori statudol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn trafod manylion y cymhorthdal presennol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ffi i athrawon cofrestredig ond, fel yr esbonnir uchod, penderfyniad gan y llywodraeth yn ymwneud â chyflog ac amodau athrawon yw hyn.

Mae CyngACC yn dadlau'n gryf y bydd y gwaith o wneud penderfyniadau ariannol yn y dyfodol i gynnal y Cyngor wedi'i ailgyflunio yn gorfod nodi'r gweithgareddau gwahanol, unigol canlynol:

- gwaith blynyddol costio gweithgareddau sy'n cynhyrchu'r gyllideb flynyddol, ac felly'r incwm dangosol o ffioedd sy'n ofynnol;
- unrhyw gymhorthdal i gofrestreion (ar hyn o bryd ad-delir £33 i athrawon yng Nghymru at eu ffi gofrestru bresennol sef £45). Mater i'r cyflogwr ac nid i'r corff cofrestru yw hyn. D.S. nid ad-delir eu ffioedd i bob cofrestrai: nid ad-delir athrawon yn yr Alban am gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban ac, yn yr un modd, cofrestreion mewn proffesiynau eraill e.e. nyrsys.

b) Nid yw ffi bresennol CyngACC yn sylfaen gadarn i gyfrifo ffioedd y Cyngor wedi'i ailgyflunio yn y dyfodol

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn defnyddio'r ffi bresennol sef £45 fel yr amcangyfrif gorau ar gyfer ffi'r Cyngor wedi'i ailgyflunio, ond mae hefyd yn nodi na ddylid ystyried mai hon fydd y ffi wirioneddol i'w chodi. Mae CyngACC yn dadlau bod defnyddio'r swm hwn fel yr amcangyfrif gorau'n wallus am y rhesymau canlynol:

- Gosodwyd y ffi yn 2008-09 ac nid yw wedi cael ei newid ers y dyddiad hwnnw. Dim ond oherwydd sefyllfa flaenorol y Cyngor o ran cronfeydd wrth gefn, wedi'u seilio ar arbedion a wnaethpwyd yn ystod blynyddoedd cynnar ei weithrediad, y bu modd cadw'r ffi ar y lefel hon. Mae'r Cyngor wedi gorfod dygymod â gwariant uwch ers hynny, oedd yn deillio'n bennaf o gynnydd sylweddol yn nifer y gwrandawiaidau safonau proffesiynol. Nid yw gwariant yn ystod y flwyddyn wedi cael ei dalu gan yr incwm yn y blynyddoedd diwethaf. Mae toriadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'w weithgarwch ond bellach mae'r Cyngor yn dibynnu ar ei Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i fantoli ei gyllideb. Dim ond oherwydd bod y Cyngor presennol yn ei ddwy flynedd olaf o weithredu cyn cael ei ailgyflunio mae'r sefyllfa hon wedi cael ei hystyried yn dderbyniol. Mae Gweinidogion, sy'n cymeradwyo'r ffi, wedi cael gwybod am hyn. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn awr yn gadael CyngACC mewn sefyllfa fregus ac anghynaliadwy.

Byddai cais i gynyddu'r ffi yn anochel yn 2015-16, a byddai'n ofynnol gan y corff wedi'i ailgyflunio er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol ac er mwyn adeiladu Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol i'w amddiffyn rhag ansicrwydd ariannol a rhoi sylfaen ariannol gadarn i'r corff newydd.

Heb incwm digonol i dalu am ei wariant a balans digonol yn ei Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol fel amddiffyniad, gallai'r corff gael ei feirniadu'n llym gan Swyddfa Archwilio Cymru am iddo fethu â gweithredu fel "busnes hyfyw". Mae'n bosibl y bydd hyn yn peryglu'r farn archwilio ar Gyfrifon Blynnyddol y corff.

- Nid yw'n cymryd i ystyriaeth oblygiadau ariannol ehangu grwpiau cofrestreion yn raddol ac ychwanegu swyddogaethau. Mae'r ffi o £45 wedi'i seilio ar weithgareddau presennol CyngACC ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth y grwpiau cofrestreion newydd na swyddogaethau newydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio. Cynigir y byddai swyddogaethau pellach i'r corff yn cael eu cyflwyno'n raddol dros amser. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ddatdaliad y dylid gadael i'r Cyngor benderfynu'r ffioedd cofrestru fel y gall ymateb i amseriad ychwanegu cofrestreion yn raddol (cynnydd yn ei incwm) ac ymestyniad ei swyddogaethau'n raddol (cynnydd yn ei wariant). O geisio cynllunio lefelau ffioedd ar gyfer grwpiau cofrestreion yn rhy gynnar, heb amserlen glir ar gyfer y swyddogaethau ychwanegol, ni ddarperir sylfaen ariannol gadarn.
- Bydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio'n dymuno sefydlu ei egwyddorion allweddol ei hun ar gyfer gosod ffioedd Fel y dywedir uchod, rhaid i lefel y ffioedd gael ei seilio ar y gweithgarwch a'r gyllideb sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r egwyddorion canlynol wrth osod ffioedd hyd yma:
 - dylai pob blwyddyn fod yn niwtral o ran cost gyda'r incwm o'r ffioedd yn talu am y gwariant sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys cyfraniad at gronfeydd wrth gefn penodedig;
 - byddai codiadau cynyddrannol bach e.e. i gyd-fynd â chwyddiant bob blwyddyn yn well na chodiadau mwy yn llai aml. Fel y digwyddodd hi, o gofio cyfyngiadau gan Weinidogion, ni fu modd cymhwyso'r egwyddor honno erioed.
- Mae yna ddylanwadau ehangach wrth osod ffioedd ac ansicrwydd ynghylch costau yn y dyfodol

Mae penderfyniadau CyngACC i beidio â gofyn am gynyddu ffioedd yn y blynnyddoedd diwethaf wedi cael eu gwneud ar sail sensitifrwydd gwleidyddol ac economaidd ac nid ar sail cyllidebu ariannol na rheoli ariannol. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor ar hyn o bryd o dan bwysau mawr ac mae diffyg codiadau blynnyddol bach yn y ffioedd wedi gwneud y sefyllfa'n waeth. Bydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio'n etifeddu'r sefyllfa hon.

Wrth gyfrifo ffioedd yn y dyfodol, fodd bynnag, bydd y Cyngor wedi'i ailgyflunio'n gallu manteisio ar arbedion maint e.e. cynnydd bach mewn costau staff a gorbenion eraill. Mae costau uniongyrchol, yn enwedig costau'r swyddogaeth fwy o ran gwaith achos safonau proffesiynol, yn 'seiliedig ar alw' ac yn amhosibl eu hamcangyfrif ar gyfer y grwpiau cofrestreion newydd ar hyn o bryd.

c) Dylai'r cynllun ffioedd cofrestru fod yn fater i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio ei benderfynu

Mae Atodiad 2 (Model Ffioedd Economaidd) o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys tri phapur am ddosrannu cyllid cymhorthdal ar gyfer ffioedd cofrestru. Yn fras, mae'r papurau'n cynnig dull i gyflogwyr ad-dalu cofrestreion wedi'i seilio ar fandiau cyflog. Yn anffodus, mae'r papur wedyn yn neidio i'r casgliad y bydd gan y Cyngor gynllun casglu ffioedd cofrestru wedi'i seilio ar fandiau cyflog. Fel y nodir yn a) uchod, mae'r ffi ac unrhyw ad-daliadau'n faterion cwbl wahanol felly ni ddylai unrhyw ddull y mae'r

llywodraeth yn ei benderfynu ar gyfer ad-dalu cofrestreion rwyngor i gynllun penodol ar gyfer casglu ffioedd.

Nid yw model ffioedd wedi'i seilio ar fandiau cyflog yn ddull sydd wedi'i fabwysiadu gan reoleiddwyr eraill a byddai'n arwain at strwythur ffioedd rhy gymhleth a fydd o bosibl yn fiwrocataidd ac yn ddud i'w weinyddu. Mae'r problemau y byddai'r Cyngor wedi'i ailgyflunio'n eu hwynebu'n cynnwys:

- byddai'n creu llawer mwy o waith i awdurdodau lleol, colegau addysg bellach ac unrhyw gyflogwr arall y byddai'n ofynnol iddo ddiwyddu ffi, gan y byddai'r ffi yn amrywio o'r naill unigolyn i'r llall. Ar hyn o bryd, mae pob athro'n talu'r un ffi ac felly mae'n hawdd ei didynnu. Byddai dull o'r fath yn amhoblogaidd ymysg cyflogwyr;
- ym mhrofiad CyngACC, yn aml nid yw adrannau adnoddau dynol a chyflogres mewn awdurdodau lleol yn cael gwybodaeth lawn yn rheolaidd am newidiadau o ran cyflogaeth ar gyfer athrawon; o ganlyniad mae'n bosibl y caiff y swm anghywir ei ddiwyddu o gyflogau a bydd mwy o waith i gywiro camgymeriadau;
- byddai angen penderfyniadau ynghylch cofrestreion newydd, yn enwedig ANG, gan na fyddent yn gwybod beth fydd eu cyflog;
- ni fydd unrhyw un sy'n gweithio fel gweithiwr cyflenwi, naill ai trwy asiantaeth neu'n uniongyrchol trwy ysgol, awdurdod lleol, coleg addysg bellach neu gyflogwr arall, yn gwybod beth fydd ei gyflog am y flwyddyn i ddod;
- byddai angen penderfyniad am y ffi ar gyfer cofrestreion gwirfoddol;
- mae yna botensial i gofrestrion amser llawn (a fydd, yn eu tro, yn talu ffi uwch) ddadlau y gwahaniaethir yn eu herbyn ar sail cydraddoldeb gan fod cofrestrion yn ddim byd ond 'trwydded i ymarfer' y mae ei hangen waeth a yw'r cofrestrion gweithio amser llawn, rhan amser neu fel gweithiwr cyflenwi;
- mae amgylchiadau cyflogaeth a chyflogau'n newid ar ganol blwyddyn gofrestru.

Mae CyngACC hefyd yn tynnu sylw at rai egwyddorion allweddol sy'n pwysleisio natur gyffredinol y ffi bresennol i athrawon. Mae'r rhain yn ystyriaethau wrth ystyried gosod cynllun ffi gofrestru ('trwydded i ymarfer') yn hytrach na chynllun ffi aelodaeth:

- nid oes unrhyw wahaniaeth yn y ffi gan ddiwyddu ar y swydd sydd gan y cofrestrion. Ar hyn o bryd, mae pennaeth ac ANG yn talu'r un swm sef £45 am eu 'trwydded' (ac yn cael ad-daliad o £33);
- nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng staff amser llawn a staff rhan amser, oherwydd fesul unigolyn mae cofrestru;
- rhaid talu'r ffi gofrestru'n llawn waeth beth fo'r dyddiad cofrestru. Nid oes gostyngiad am gofrestru rhan o'r ffordd trwy flwyddyn gofrestru.

Er gwaethaf ein barn na ddylai'r Gweinidog gymryd rhan mewn gwneud darpariaeth ar gyfer y ffi – gan mai mater i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio yn unig yw hwn – nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dod at CyngACC i drafod goblygiadau'r cynllun ffioedd arfaethedig wedi'i seilio ar fandiau cyflog.

Mae'r Cyngor yn cefnogi mabwysiadu ystod gyfyngedig o ffioedd gwahanol wedi'u seilio ar gategoriâu cofrestru gwahanol *nid* ffioedd gwahanol wedi'u seilio ar fandiau cyflog. Mae hyn yn cydnabod potensial pob categori cofrestru o ran cyflog a hefyd, maes o law wrth i'r costau ddod yn gliriach, gostau rheoleiddio'r grŵp penodol.

d) Mae 'hybu gyrfaoedd yn y proffesiynau cofrestradwy' yn gyfrifoldeb cyhoeddus a dylai gael ei ariannu o bwrs y wlad

Mae Adran 8 o'r Bil yn cynnig y byddai gan y corff wedi'i ailgyflunio rôl yn y gwaith o hybu gyrfaoedd yn y proffesiynau cofrestradwy. Byddai hwn yn weithgarwch newydd i'r corff wedi'i ailgyflunio. O dan Ddeddf 1998, gallai Gweinidogion Cymru fod wedi gofyn i CyngACC wneud gwaith i hybu recriwtio i faes addysgu ond dewisasant contractio'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TTA gynt) i wneud y gwaith hwn yng Nghymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 303) yn cyfeirio at gyllideb o £100,000 i ariannu'r gweithgarwch hwn, ond nid yw'n glir sut y caiff hyn ei ariannu, ai trwy'r incwm o'r ffioedd cofrestru neu fel grant ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

Mae CyngACC yn pwysleisio bod **hybu gyrfaoedd yn y proffesiynau addysg cofrestradwy yn gyfrifoldeb cyhoeddus a bod yn rhaid iddo gael ei ariannu'n uniongyrchol o bwrs y wlad**. Byddai'n amhriodol codi tâl ar gofrestreion am hyn.

Gan dybio y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu trwy grant gan y llywodraeth, **mae lefel arfaethedig y gyllideb, sef £100,000, ar gyfer y gwaith hwn yn debygol o fod yn gwbl annigonol**. Yn 2009-10 talodd Llywodraeth Cymru £734,000 mewn grant i adalu costau i'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer recriwtio i addysgu mewn ysgolion yn unig. Yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y ffigur hwnnw oddeutu £1 miliwn. Byddai'r Cyngor wedi'i ailgyflunio'n gyfrifol am recriwtio staff addysgu a staff cymorth addysgu mewn ysgolion ac ym maes addysg bellach.

e) Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i gynorthwyo'r Cyngor wedi'i ailgyflunio gyda chostau cychwyn

Pan sefydlwyd CyngACC yn 2000, defnyddiwyd dull fesul cam o'i ariannu, gan symud y Cyngor dros y tair blynedd gyntaf o gymorth grant i hunangyllido trwy ffioedd cofrestru.

Ni fydd y corff wedi'i ailgyflunio'n cychwyn o ddim. Yn hytrach bydd yn etifeddu systemau, gweithdrefnau a staff CyngACC. Er hynny, bydd yna gostau cychwyn o hyd y dylai Llywodraeth Cymru eu hariannu.

Byddai'n anghywir disgwyl i ffioedd athrawon ysgol ariannu'r newidiadau y mae eu hangen i ymestyn cofrestru i athrawon addysg bellach ac i staff cymorth.

Er enghraifft, bydd y Gofrestr angen meysydd a modiwlau ychwanegol a fydd yn ymwneud â'r cofrestru newydd. Fel y soniwyd yn Adran 2 o'r cyflwyniad hwn, bydd angen ymgyrch cyfathrebu cyn i'r Cyngor gael ei ailgyflunio ac yn ystod blynyddoedd cyntaf ei weithredu. Mae'n bosibl y bydd yna waith â chostau ar y cychwyn ym maes adnoddau dynol a gwasanaethau corfforaethol eraill yng nghyswllt recriwtio unrhyw staff ychwanegol y bydd eu hangen yn ystod y flwyddyn sefydlu.

Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â CyngACC i benderfynu'r costau sefydlu y bydd eu hangen yn y flwyddyn cyn ailgyflunio (2014-15) a blynyddoedd cyntaf gweithredu (2015-16, 2016-17) a darparu arian sefydlu ar gyfer y costau hyn.

f) Cywiriadau i'r rhagdybiaethau ariannol yn y Memorandwm Esboniadol

Asesiad Effaith Rheoliadol, Pennod 8 'Costau a Manteision'

Mae Paragraff 292 yn cyfeirio at gyllideb o £400,000 ar gyfer gwaith disgyblu yn 2013-14 (ac eithrio costau staff). Mewn gwirionedd, cyfanswm y gyllideb yw £528,750 (ond gan

gynnwys costau staff) sef bron traean o holl wariant cynlluniedig CyngACC. Roedd y gyllideb hon wedi'i seilio ar ymdrin â 35 o achosion ar amcangyfrif yn ystod y flwyddyn, ond gan mai swyddogaeth "seiliedig ar alw" yw hon, mae'n anodd cynllunio'n fanwl gywir. Hyd yn oed cyn canol y flwyddyn, mae'r Cyngor eisoes yn rhagweld cynnydd sylweddol yn nifer gynlluniedig y gwrandawiadau, a bellach mae'n rhagweld y bydd yn ymdrin â 42 o wrandawiadau yn 2013-14. Gallai hyn gynyddu'r costau cymaint â £100,000 yn y flwyddyn.

Mae Paragraff 302 yn cyfeirio at "llai na thair apêl [sefydlu]". Mae CyngACC wedi clywed 5 apêl sefydlu.

Mae Paragraff 307 (fersiwn Saesneg yn unig) yn cyfeirio at gost o £15,000 ar gyfer achos yn ymwneud â chais i gofrestru. Ymddengys mai gwall teipograffyddol yw hyn. Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol yn gywir, gan gyfeirio at £1,500 ar gyfer achos yn ymwneud â chais i gofrestru.

Paragraff 309 Mae'n rhy gynnar i farnu a yw'r incwm a amcangyfrifir sef "tua £2.7 miliwn" yn debygol o dalu am weithgarwch cynlluniedig y corff newydd. Bydd cofrestru'r grwpiau hyn yn raddol yn rhoi cyfle i'r Cyngor wedi'i ailgyflunio ddeall a monitro ei wariant yn fanwl a chyfrifo'r ffioedd cofrestru y bydd eu hangen ar y pryd.

Model Ffioedd Economaidd, Papur 1

Mae Tudalen 1 pwynt bwled 3 yn dweud mai dim ond £6 mae athrawon yn ei dalu ar ôl gostyngiad yn y dreth. Mae awdurdodau lleol yn cadarnhau eu bod yn cymhwyso treth, yswiriant gwladol a phensiwn i'r ad-daliad. Yn fras, oddeutu £36 fydd y ffi £45 ar ôl gostyngiad yn y dreth, ond oddeutu £18 fydd yr ad-daliad ar ôl treth, yswiriant gwladol a phensiwn, sy'n golygu bod athrawon yn talu oddeutu £18 ac nid £6. Fodd bynnag, bydd athrawon gwahanol yn talu swm gwahanol o dreth, felly mewn gwirionedd bydd y cyfrifiad hwn yn amrywio o'r naill athro i'r llall.

Tablau 1-3 Rydym yn deall mai'r bwriad yw cael ymgynghoriad llawn ar ffioedd cofrestru; fodd bynnag, ymddengys fod yna wallau bach yn y tablau yn y papur hwn sy'n cyfrifo'r cyfraniad posibl y dylai athro/athrawes ei wneud at y ffi, er enghraifft, nid yw'r ffigurau'n cynnwys y 6,000 o gofrestreion ychwanegol sy'n talu ffi ond nad ydynt yn cael ad-daliad, sef athrawon cyflenwi a chofrestreion gwirfoddol. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i grwpiau cofrestreion newydd a fydd yn gweithio trwy asiantaethau neu'n cofrestru'n wirfoddol.

4. PRIODOLDEB Y PWERAU YN Y BIL I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS-DEDDDFWRIAETH

Mae'r adran hon yn nodi'r meysydd hynny lle mae'r Cyngor yn barnu bod y pwerau a gynigir yn amhriodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mewn manau mae'r adran hon yn gorgyffwrdd â rhai o'r meysydd yr ymdrinnir â hwy yn Adran 1 o'r cyflwyniad hwn.

a) Ffioedd cofrestru (Adran 12)

Mae CyngACC wedi'i awdurdodi trwy Reoliadau i godi ffi a bennir gan y Cyngor gyda chymeradwyaeth y Gweinidog. Fel mater o egwyddor, ac yntau'n gorff annibynnol a ariennir gan ffioedd athrawon cofrestredig – nid Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a ariennir gan gymorth grant – mae CyngACC bob amser wedi barnu ei bod yn amhriodol i'r llywodraeth gymeradwyo lefel ei ffi gofrestru. Pe bai'r Cyngor wedi'i ailgyflunio'n cael ei ariannu gan y llywodraeth, yna byddai'n ddilys i'r llywodraeth reoli ei weithgareddau.

Y Cyngor wedi'i ailgyflunio sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth yw costau'r gweithgareddau statudol y mae'n rhaid iddo eu cyflawni ac felly ef ddylai benderfynu'r ffi. Byddai'r Cyngor yn atebol i gofrestreion am osod y ffi ar lefel briodol a derbyniol. Mae CyngACC wedi ymatal rhag cynyddu'r ffi dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi cyllidebu'n unol â hynny (hyd yn oed gyda phwerau fetu'r Gweinidog). Nid oes unrhyw reswm dros feddwl y byddai Cyngor y corff wedi'i ailgyflunio, a gâi ei benodi gan Weinidogion, yn gweithredu mewn modd llai sensitif ynghylch lefel y ffi. Mae'n werth nodi y gall Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban osod ei ffioedd cofrestru heb gymeradwyaeth Gweinidogion. Yn yr un modd mae cyrff proffesiynol mewn meysydd eraill a ariennir yn gyhoeddus yn rhydd i osod eu ffioedd yn unol â'u gweithgareddau a chyda chaniatâd eu cofrestreion.

Mewn perthynas â phriodoldeb y pwerau i Weinidogion wneud is-ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd. Fodd bynnag, mae Is-adran 12(2)(b) o'r Bil yn mynd ymhellach o lawer na Deddf 1998, gan ddweud y caiff Rheoliadau wneud darpariaeth "*ynghylch swm y ffioedd (a phwy sydd i benderfynu'r swm hwnnw)*". Mae hyn yn awgrymu y byddai angen Rheoliadau bob tro y câi'r ffi ei chynyddu. Mae'r geiriau mewn cromfachau'n awgrymu y gallai'r Gweinidog neu drydydd parti nad yw'n gyfrifol am weithgareddau'r Cyngor osod y ffi gofrestru.

Mae'r Cyngor yn cefnogi awdurdodi'r corff wedi'i ailgyflunio i godi ac adennill ffioedd a'i gwneud yn ofynnol i gyflogwyr personau cofrestredig ddi-dynnu ffioedd a'u talu i'r corff wedi'i ailgyflunio. Nid oes angen unrhyw fanylion eraill a dylid gadael i'r corff benderfynu'r ffi a threfnu'r dulliau casglu. Mae'r cynigion yn Adran 12 ar lefel manylder nad oes angen i Weinidogion na swyddogion ymwneud â hi. Nid oes angen is-ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

b) Gweinidogion fydd yn penodi holl aelodau'r Cyngor.

Maint y Cyngor

Byddai Gweinidogion yn gallu pennu nifer aelodau'r Cyngor trwy Orchymyn (Atodlen 1, Adran 3(1)).

Ar hyn o bryd mae gan CyngACC 25 aelod - 12 wedi'u hethol, 13 wedi'u penodi (4 yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru, a 9 gan Weinidogion yn dilyn eu henwebu gan sefydliadau penodedig). Ni ddylai'r cynnydd yn nifer y cofrestreion arwain at Gyngor mwy. Fel y dywedwyd o'r blaen, y duedd ym maes llywodraethu rheoleiddiol proffesiynol (gweler Atodiad A) yw at Gynghorau llai o ryw 12 aelod. **Dylai'r corff wedi'i ailgyflunio fod yn llai na CyngACC ond yn ddigon mawr i adlewyrchu amrywiaeth sectorau, profiadau a chyd-destunau ei grŵp ehangach newydd o gofrestreion.**

Mae'r Cyngor yn cytuno'n gryf gyda chynnig y Bil (Atodlen 1, Adran 3 (4)) y dylai aelodau weithredu fel unigolion ac na ddylai aelodau fod yn 'gynrychiolwyr' sefydliadau. Mae hyn yn well na chlustnodi lleoedd i sefydliadau neu sectorau penodol. Byddai rhywun yn disgwyl y byddai'r Cyngor yn dymuno sefydlu, 'yn ôl yr angen', baneli cynghori a grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn sicrhau bod barn sefydliadau a rhanddeiliaid yn cael ei bwydo i waith penderfynu'r Cyngor ac er mwyn ychwanegu at ei gapasiti.

Dull penodi aelodau

Mae Atodlen 1, Adran 3(2) yn cynnig bod aelodau i gael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Nid yw'r Bil yn nodi a fyddai hyn yn gyfuniad o benodiadau uniongyrchol neu benodiadau yn dilyn enwebiadau. Mae'r broses Penodiadau Cyhoeddus wedi cael ei defnyddio i wneud y penodiadau hyn i CyngACC rhwng 2000 a'r presennol.

Fodd bynnag, os nad oes elfen o ethol aelodau i'r corff wedi'i ailgyflunio, mae CyngACC yn pryderu y byddai defnyddio proses Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i benodi aelodau'r Cyngor yn gallu arwain at *ddirnadaeth* mai Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu 'gwango' oedd y Cyngor, bod yr aelodau'n ddyledus i'r Gweinidog neu'r llywodraeth, a'u bod yn ddatgysylltiedig yn eu dealltwriaeth o faterion proffesiynol. Er hygredd y Cyngor wedi'i ailgyflunio ymysg grwpiau cofrestreion newydd, bydd yn hanfodol bod gan aelodau'r Cyngor ddealltwriaeth a phrofiad gwirioneddol o'r problemau y mae'r proffesiwn ehangach a'r sefydliad yn eu hwynebu.

Mae defnyddio paneli annibynnol i benodi aelodau i lywodraethu'r sector cyhoeddus yn ddull sy'n cael ei fabwysiadu fwyfwy. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban wedi mabwysiadu'r dull hwn – mae wedi sefydlu Pwyllgor Penodiadau sy'n cynnwys athrawon cofrestredig ac aelodau lleyg ac sy'n annibynnol ar Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban. Y Pwyllgor Penodiadau sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o recriwtio, dethol a phenodi 7 aelod lleyg ei Gyngor (a'r athrawon cofrestredig a'r aelodau lleyg sy'n gwasanaethu ar y Paneli Dyfarnu ac ar y Bwrdd Apeliadau annibynnol).

Mae proses penodiadau Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban wedi'i bwriadu i gyflawni pedwar canlyniad allweddol:

- denu'r ystod ehangaf o bobl gan roi sylw dyledus i amrywiaeth a hybu a dangos cyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i bob ymgeisydd ar bob cam;
- galluogi'r broses dethol i gyflawni canlyniad o ansawdd da;
- dangos ei bod yn agored ac yn dryloyw; a
- gallu ateb heriau i unrhyw benodiad.

Mae pob penodiad yn cael ei reoli gan y brif egwyddor, sef dethol ar sail teilyngdod, ac mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod galluoedd, profiad a phriodoleddau'r bobl a benodir yn diwallu anghenion gwahanol swyddogaethau Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

Ceir gwybodaeth am broses Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban yn Atodiad F.

Am y rhesymau uchod, **mae'r Cyngor yn dadlau'n gryf na ddylai aelodau'r corff wedi'i ailgyflunio gael eu penodi gan Weinidogion Cymru – pa un ai trwy benodiadau uniongyrchol neu'n dilyn enwebiadau gan sefydliadau penodedig. Yn lle hynny, dylai'r Bil nodi sefydlu Pwyllgor Penodiadau annibynnol, a fyddai ag un nod yn unig sef sicrhau bod y Cyngor wedi'i ailgyflunio'n cael ei wasanaethu'n dda gan aelodau priodol ac, os oes angen, unrhyw grwpiau perthnasol fydd gan y Cyngor wedi hynny. Byddai angen i brosesau'r Pwyllgor Penodiadau annibynnol fod yn seiliedig ar egwyddorion Nolan o fod yn dryloyw ac agored. Byddai dull o'r fath yn helpu i sicrhau mai anghenion y sefydliad sydd o'r pwys mwyaf ac y cânt eu hadlewyrchu yn y penodiadau a wneir.**

Fel arall, mae'r manylion yn y Bil sy'n ymwneud ag aelodaeth, er enghraifft, ethol Cadeirydd o blith aelodau'r Cyngor, yr un peth â Rheoliadau Cyfansoddiad CyngACC. Mae'r rhain yn gweithio'n ymarferol ac mae'r Cyngor yn eu cefnogi.

Trefniadau trosiannol

Er mwyn osgoi bwlch rhwng y CyngACC presennol a'r Cyngor wedi'i ailgyflunio ac er mwyn darparu parhad gweithrediad, mae CyngACC yn cynnig, ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei chyflwyno, **y dylai Cyngor cysgodol gynnwys aelodau o Gyngor presennol CyngACC. Bydd angen eglurder hefyd ynghylch cyfrifoldeb am benderfyniadau y bydd angen eu gwneud yn 2014-15 ynglŷn â blwyddyn gyntaf gweithredu'r corff wedi'i ailgyflunio (2015-16).**

c) Cymeradwyaeth gan Weinidogion i gynllun tâl i gyflogeion y Cyngor

Mae Atodlen 1 (Adran 10) yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor baratoi cynllun tâl i'w gyflogeion a thâl/lwfansau/treuliau aelodau'r Cyngor. Fodd bynnag, yn y Bil mae hyn yn destun cymeradwyaeth gan y Gweinidog.

Cafodd pob cyfeiriad at gymeradwyaeth gan Weinidogion i gymalau tebyg eu dileu yn 2002 pan ddaeth CyngACC yn gwbl hunangyllidol trwy'r ffioedd cofrestru. Nid yw adfer y pwerau cymeradwyo hyn yn un o nodweddion sefydliad annibynnol.

Fel y dywed y Memorandwm Esboniadol, "*Mae isadran (1)(a) yn cadarnhau mai'r un endid cyfreithiol yw CyngACC a Chyngor y Gweithlu Addysg. Golyga hyn, er enghraifft, nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar delerau ac amodau contractau ei gyflogeion.*" (Nodiadau Esboniadol, Atodiad 1, Para 16). Ers ei ddechrau, mae CyngACC wedi dewis efelychu systemau tâl a graddfeydd gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. At hynny, gall cyflogeion CyngACC fanteisio ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae Atodlen 1, Adran 11 yn ei gwneud yn bosibl i hyn barhau.

Nid yw'n briodol i'r Bil roi pwerau i'r Gweinidog gymeradwyo tâl cyflogeion y Cyngor. Mater mewnol i sefydliad hunangyllidol, annibynnol yw hyn. Nid Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw CyngACC.

O ran lwfansau i aelodau, mae CyngACC wedi trin yr holl aelodau yn yr un modd bob amser. Mae cyflogwr aelod yn cael tâl (ar gyfradd athro cyflenwi) i'w ddigolledu am absenoldeb yr aelod o'i le gwaith arferol ar fusnes y Cyngor. Mae hyn yn wir pa un a yw'r aelod yn athro/athrawes neu mewn cyflogaeth arall. Mae aelodau hunangyflogedig yn cael yr un tâl i'w digolledu am golled enillion. Nid yw aelodau'n cael eu talu am eu gwaith i'r Cyngor. Dim ond eu costau teithio a chynhaliadaeth y caiff aelodau eu hawlio.

Nid yw cymeradwyaeth gan y Gweinidog i lwfansau a threuliau aelodau Cyngor sy'n hunangyllidol yn faes priodol i Weinidogion na swyddogion ymwneud ag ef. Nid Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor. Mae CyngACC yn argymhell rhoi yn lle Atodlen 1, Adran 10 y geiriau yn Atodlen 1 Adrannau 4 a 5 o Ddeddf 1998 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gwneud y rhain yn gyfrifoldeb i'r Cyngor yn unig.

d) Penodi Prif Swyddog

Mae Atodlen 1, Adran 9 yn dweud y caiff Rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch penodi Prif Swyddog, gan gynnwys:

- pennu pwy sydd i benodi'r prif swyddog;
- y weithdrefn ar gyfer y penodiad hwnnw;
- sut y mae'r telerau ac amodau i gael eu penderfynu.

Yn achos CyngACC yn 2000, gwnaethpwyd darpariaeth i Weinidogion benodi'r Prif Swyddog am y tro cyntaf oherwydd roedd hyn cyn bodolaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol i Gymru. Pan gafodd CyngACC ei sefydlu, trosglwyddwyd cyflogaeth y Prif Swyddog iddo.

Mae'r sefyllfa'n wahanol mewn perthynas â'r corff wedi'i ailgyflunio. Mae CyngACC yn endid cyfreithiol a fydd yn parhau i fodoli ond a gaiff ail ailenwi ac y bydd ei gyflogeion (gan gynnwys Prif Swyddog) yn ymgymryd â gwaith y corff wedi'i ailgyflunio (gweler y Memorandwm Esboniadol, Nodiadau Esboniadol, Atodiad 1, Para 16)

Mae CyngACC yn dadlau mae lle'r Cyngor wedi'i ailgyflunio yn unig, ac yntau'n gyflogwr annibynnol, yw penodi ei Brif Swyddog a phenderfynu ei delerau ac amodau. Nid mater ar gyfer Rheoliadau yw hyn.

Dylid dileu Atodlen 1, Adran 9(2) a rhoi yn ei lle gymal sy'n dweud y caiff y Cyngor benodi ei Brif Swyddog.

- e) **Sylwebaeth ar agweddau ar y pwerau a gynigir i lunio is-ddeddfwriaeth** (y rhoddir crynodeb ohoni mewn tabl yn dilyn para 196 o'r Memorandwm Esboniadol)

Adran	Gweithdrefn a gynigir yn y Bil	Sylw CyngACC
5 (1) pŵer i ychwanegu swyddogaethau	negyddol	Gallai hyn gynnwys pwerau a chyfrifoldebau sylweddol ychwanegol e.e. achredu hyfforddiant, neu swyddogaethau nad ydynt yn briodol i gorff proffesiynol. Dylent gael eu trafod yn y cyfarfod llawn ac felly mae angen gweithdrefn gadarnhaol .
10 (6) Cymhwysedd i gofrestru	cadarnhaol	Mater proffesiynol manwl yw hwn y dylid gadael i'r Cyngor ei benderfynu. Dylai'r Bil ddweud y gall y Cyngor nodi seiliau ychwanegol ar gyfer anghymhwysra a bydd hyn yn dileu'r angen am ragor o drafod.
12(1) ffioedd cofrestru	negyddol	Dylai'r Bil ddweud mai'r Cyngor fydd yn penderfynu ei ffi gofrestru (h.y. dim cymeradwyaeth gan Weinidogion) a bydd hyn yn dileu'r angen am unrhyw is-ddeddfwriaeth bellach.
25(1) Cod ymddygiad ac ymarfer: darpariaeth bellach	negyddol	Nid yw'n briodol i Weinidogion benderfynu'r Cod trwy Reoliadau. Dylid gadael i'r Cyngor benderfynu ffurf a chynnwys y Cod. Nid yw Deddf 1998 yn gwneud darpariaeth debyg.

Atodlen 1, 9(2) Prif Swyddog	negyddol	Ni ddylai Gweinidogion fod â phwerau i wneud rheoliadau i benodi'r Prif Swyddog. Dylai'r Bil ddweud mai'r <u>Cyngor</u> a gaiff wneud penderfyniadau ynghylch penodi'r Prif Swyddog.
------------------------------	----------	--

**Nid yw'r atodiad i'r papur hwn ar gael yn
Gymraeg.**

**Gellir ffindio'r atodiad ar ddiwedd fersiwn
Saesneg y papur – EB 17**